Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru

Adolygiad gan y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol

Tachwedd 2011

CYDWEITHIO I LEIHAU TANAU BWRIADOL
WORKING IN PARTNERSHIP TO REDUCE ARSON

MYNEGAI

Cyflwyniad *3*

- *Am y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol* *4*
- *Rôl Llywodraeth Cymru* *4*
- *Methodoleg yr Adolygiad* *5*
- *Symud ymlaen* *5*

Adolygu'r 'Gweithredu ar gyfer Newid'

1. *Ehangder y Broblem* *7*

2. Yr *Amgylchedd* *12*

3. *Plant, Pobl Ifanc ac Addysg* *28*

4. *Diogelu'r Cyhoedd* *42*

5. *Taenellwyr* *56*

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad

Adolygiad Cynnydd a gynhaliwyd gan y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol, 2011

Cyflwyniad

Cynhyrchwyd *'Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru'* 2007 gan y Cyd-grŵp Tanau Bwriadol (y Cyd-Grŵp) a Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y seiliau a osodwyd yn yr adroddiad *'Up in Flames'* (2003) ac i ddarparu gwir ffocws i sefydliadau a phobl sydd yn gweithio ym maes lleihau tanau bwriadol. Yn ei ragair i'r strategaeth nododd Dr Brian Gibbons 'bydd angen esblygu wrth i'r broblem ei hun esblygu'

Yn wir mae Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru yn adnodd a ddefnyddir gan y Cyd-Grŵp, ei aelodau ac ymarferwyr lleihau tanau bwriadol ledled Cymru. A nawr, 4 blynedd yn ddiweddarach, mae'r Cyd-Grŵp wedi ymgymryd â'r dasg o gwblhau adolygiad cynnydd ar y 'Gweithredu ar gyfer Newid' a fanylir yn y ddogfen wreiddiol.

Wrth gwblhau'r adolygiad hwn, mae'r Cyd-Grŵp hefyd wedi ceisio casglu a chofnodi enghreifftiau nodedig o waith atal tanau bwriadol yng Nghymru dros y blynyddoedd ymyrgar.

Mae enghreifftiau o'r gwaith hyn yn cynnwys:

- Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i sicrhau y caiff safleoedd anniogel eu diogelu cyn gynted â phosibl wedi'r darganfyddiad, gan liniaru'r risg a sicrhau nad oes perygl o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu gynnau tanau bwriadol.

- Rhannu arferion da gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar hyd a lled Cymru mewn perthynas â symud, storio a chael gwared â cherbydau gadawedig er mwyn lleihau nifer y tanau cerbyd.

- Rhoi'r rhaglen *Gwella Diogelwch Ysgolion* ar waith ar draws Cymru

- Gwaith ymchwil arloesol *('Tanau Gwylltion yng Nghymru'*) a dull o weithredu sy'n seiliedig ar farchnata cymdeithasol (*Prosiect 'Bernie'*) fel bod modd gwella'n dealltwriaeth a mynd i'r afael â'r broblem o gynnau tanau glaswellt yn fwriadol.

- Datblygu ymhellach a darparu rhaglenni *addysg ac ymyrryd* (e.e. '*Y Ffenics'* a *'FireSafe'*)gydag amrywiaeth o bartneriaid asiantaeth (e.e. Yr Heddlu, Awdurdodau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Thimau Troseddau Ieuenctid ayb.).

Mae prosiectau fel hyn wedi cyfrannu at y lleihad cyffredinol a welwyd yn niferoedd y tanau bwriadol yng Nghymru o oddeutu 20,000 o ddigwyddiadau wedi eu recordio yn 2006 i oddeutu 14,000 yn 2010/11[1]. Er ein bod yn cydnabod bod hyn yn gam mawr yn y cyfeiriad cywir, nid dyma'r amser i fod yn hunanfoddhaol. Mae Llosgi Bwriadol yn drosedd sydd yn anodd iawn i fynd i'r afael â hi ac y mae'n parhau i fod yn broblem aruthrol: mae'r gost economaidd ac amgylcheddol i Gymru yn syfrdanol; mae'r ôl-

[1] *Ystadegau Tân Cymru, 2008* ac Ystadegau Tân Cymru*, 2009-10* a *(*Bwletin Ystadegau Llywodraeth Cymru) 2010-11, data 2010-2011 yn amodol.

effeithiau ar gymunedau ac unigolion yn aml yn drasig iawn ac mae'r baich a roir ar y gwasanaethau brys yn annerbyniol.

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru yn cael ei galw i oddeutu 35 digwyddiad o losgi bwriadol *bob dydd*, ar gyfartaledd. Mae modd gwneud mwy ac y mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â thanau bwriadol o ddifrif a helpu i greu cymunedau diogelach a chadarnach o ganlyniad.
Roedd ymgymryd â'r adolygiad hwn yn ymarfer pwysig iawn ac yn gam allweddol i ddatblygu'r strategaeth yng Nghymru. Yr hyn ddaeth i'r amlwg yn ystod y broes o adolygu oedd bod yma gyfle i ni adeiladu ar ein profiadau a'r hyn a ddysgwyd dros y blynyddoedd diwethaf, i ddatblygu strategaeth lleihau tanau bwriadol newydd sydd yn cwrdd â'r her o newid dichonadwy yn yr hinsawdd economaidd , ac sydd yn annog asiantaethau eraill i rannau'r cyfrifoldeb dros leihau tanau bwriadol yn ein cymunedau.

Gobeithiwn y bydd yr adolygiad hwn o ddiddordeb i bawb sydd gan ddiddordeb mewn lleihau tanau bwriadol mewn cymunedau ledled Cymru.

Ynglŷn â'r Cyd-Grŵp

Yn wreiddiol, fe sefydlwyd Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol dan nawdd Pwyllgor Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolwyr o'r asiantaethau allweddol yng Nghymru, gan gynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub; yr Heddlu; Llywodraeth Cymru, *Firebrake* Cymru; a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.

Y *Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol* gafodd y dasg wreiddiol o gynhyrchu Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru, ac y mae'r Grŵp wedi bwrw ymlaen â'r strategaeth drwy gyd-drefnu gweithgareddau a mentrau lleihau tanau bwriadol aml-asiantaeth ar hyd a lled Cymru. Creda'r Cyd-Grŵp bod tanau bwriadol yn broblem gymunedol, ac o'r herwydd, mai'r ffordd orau i ddelio â hi yw try weithredu ar y cyd.

Rôl Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i chwarae rhan allweddol ac yr un mor ymroddedig i leihau nifer y tanau bwriadol a chodi ymwybyddiaeth am ei effeithiau difrodus ar gymunedau ac economi Cymru.

Ers 2004 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu nawdd o £8.4m i ddatblygu'r gwaith o atal tanau bwriadol. Nid oes gan yr un asiantaeth fonopoli ar y wybodaeth ac y mae'r gwaith ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu, awdurdodau lleol, partneriaethau diogelwch cymunedol a rhaglenni rhanddeiliaid eraill i hybu dull o weithio ar y cyd er mwyn lleihau tanau bwriadol ar hyd a lled Cymru wedi bod yn effeithiol a chynaliadwy.

Rhwng 2007/08 a 2010/11, bu i Lywodraeth Cymru ddarparu nawdd o £3m i Dimau Atal Tanau Bwriadol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Fel rhan o'r rhaglen diogelu ysgolion mae'r Timau Atal Tanau Bwriadol wedi cwblhau arolygon lleihau trosedd i 167 o ysgolion yng Nghymru. Bu i Lywodraeth Cymru ddarparu £2.053m ar gyfer y mesurau i ddiogelu'r ysgolion hyn.

Rhwng 2007/08 a 2010/11, bu i Lywodraeth Cymru ddarparu nawdd o £1.9m i alluogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub symud ymlaen gyda'u rhaglenni ymyrraeth i bobl ifanc.

Mae hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub gynnig 9,000 o leoliadau ar gyrsiau.

Mae'r manteision y buddsoddiad hwn yn amlwg o edrych ar y lleihad yn nifer y digwyddiadau.

Mae nifer y prif danau [2] wedi gostwng gan 21% rhwng 2008/09 a 2010/11. Ar gyfer yr un cyfnod cafwyd lleihad yn niferoedd y tanau cerbyd gan 39%, o 1,993 yn 2008/09 i 1,207 yn 2010/11[3].

Methodoleg yr Adolygiad

Cydnabod bod yn rhaid datblygu Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru i adlewyrchu'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddi. Cychwynnodd y Cyd-Grŵp ar yr adolygiad yn 2011. Mae'r strategaeth wreiddiol yn cynnwys 30 pwynt 'Gweithredu ar gyfer Newid' amlwg ac roedd y Cyd-Grŵp am nodi cynnydd *pob un* o'r gweithredoedd hyn, yn ystod y 4 blynedd hyd 2011. Bu'r Cyd-Grŵp yn ymgynghori gyda'u cydweithwyr, a chyda chefnogaeth a chyfraniad helaeth gan y Timau Lleihau Tanau Bwriadol fe aethant ati i fanylu'r cynnydd a wnaed, yn ogystal â nodi'r anawsterau a wynebasant.

Roedd hwn yn adolygiad mewnol, a gwblhawyd gan aelodau'r Cyd-Grŵp, ac, o'r herwydd, fe'i cynhaliwyd gan a chyda cyfraniad yr ymarferwyr hynny sydd yn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y strategaeth wreiddiol. Er hynny, roedd bwriad i'r adolygiad fod yn rhan o broses ehangach a fyddai'n arwain at gynhyrchu strategaeth lleihau tanau bwriadol newydd i Gymru.

Nid yw'r adolygiad ei hun yn werthusiad systematig o weithgareddau ac ymyriadau unigol, ond, yn hytrach, adlewyrchiad gonest gan aelodau'r Cyd-Grŵp o'r cynnydd a wnaed. Fel rhan o'r adolygiad , mae'r aelodau wedi nodi'r ymarferion da a'r gwelliannau; y gwaith sydd angen ei wneud i ddatblygu dulliau gwahanol ac, oherwydd ffactorau allanol, y pwyntiau gweithredu unigol nad ydynt yn addas neu'n berthnasol mwyach. Cynigir argymhellion ynghylch pa rai o'r pwyntiau gweithredu gwreiddiol y dylid eu 'cadw', 'diwygio' a 'gwaredu'. Mae'r aelodau hefyd wedi cynnig amrywiaeth o 'ganlyniadau' newydd a meysydd sydd yn gofyn am sylw, i gyfrannu at ddatblygu strategaeth newydd i Gymru.

Symud ymlaen

Mae elfen adlewyrchol yr adolygiad hwn wedi dwyn i'r amlwg fod hanfod y strategaeth wreiddiol yn gadarn ac parhau i fod yn berthnasol heddiw. O ystyried y cynnydd a wnaed a'r cyd-destunau gwleidyddol a chymdeithasol newidiol, mae angen strategaeth newydd i newid pwyslais ein hymdrechion yn y maes a lledu'r cyfrifoldeb dros weithgareddau lleihau tanau bwriadol yng Nghymru.

I gael gwybod mwy am y strategaeth newydd ('*Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru 2012-2015*') a sut y gallwch chi fod yn rhan o broses ymgynghori'r strategaeth hon, cysylltwch â:

[2] Mae prif danau yn cynnwys tanau mewn adeiladau, cerbydau ac adeileddau allanol eraill neu tanau yn cynnwys anafedigion, achubiadau, neu danau lle mae mwy na phum o beiriannau yn cael eu galw iddynt.
[3] Ffynhonnell: Tabl 032217 statscymru@cymru.gov.uk

Richard Hall, Cydlynydd Polisi ac Ymchwil, Atal Tan Cymru
richard@firebrake.org
01633 654000

Mae modd lawr lwytho'r ddogfen wreiddiol *Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru* (2007) yma:
Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol (2007)

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu
Gweithredu ar gyfer Newid

1. *"Ehangder y Broblem"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***1.1 ac 1.2***
Gweithredu	***Adnabod yr ardaloedd lle y gwyddys bod problemau â thanau bwriadol a darparu ymyriadau amlasiantaethol wedi eu targedu.*** ***Dylai partneriaid gasglu data i gael gwell darlun o danau bwriadol, troseddau dangosol a ffactorau risg.***

Dyma oedd y 'nodau': *Datblygu sustemau dadansoddi a rheoli gwybodaeth fel y gellir pennu yn gynnar unrhyw broblemau sy'n dod i'r amlwg, ar sail data partneriaeth.*

Darparu ymyriadau amlasiantaethol, â chymorth Partneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn datrys y problemau hyn sy'n dod i'r amlwg, sy'n seiliedig ar fodel CDYA (Craffu, Dadansoddi, Ymateb ac Asesu), gan ddefnyddio dull cyfannol.

Dull cyffredinol o ddefnyddio'r systemau cofnodi data gan yr holl bartneriaid ledled Cymru.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Derbynnir gwybodaeth gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu yng Nghymru, a dadansoddir y data hwn i'n galluogi i adnabod "mannau dwys" a phroblemau a all godi.

Mae gwaith ymchwil i greu proffil o bobl sydd yn cynnau tanau bwriadol wedi ei gwblhau ac y mae'r Comisiwn Coedwigaeth hefyd yn cefnogi gwaith ymchwil i gymhelliant pobl i gynnau tannau mewn perthnasedd â Thannau Gwledig.

Mae'r data sydd wedi canfod mannau dwys yna'n cael ei ddefnyddio i gefnogi ymyriadau amlasiantaethol megis "Diwrnodau Gweithredu Amgylcheddol" a dramâu ysgol.

Mae'r Heddlu yng Nghymru yn defnyddio system cofnodi troseddau, System Rheoli ('RMS') a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn defnyddio System Recordio Digwyddiadau ('IRS').

Cydnabyddir bod yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn casglu data gwahanol ac i ddibenion gwahanol, yn aml o'r un digwyddiad, a dim ond trwy ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael y gellir cael darlun cyflawn.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:

Y Cyd-Grŵp Lleihau Tanau Bwriadol

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Cadw a diwygio fel a ganlyn: ***Adnabod yr ardaloedd lle y gwyddys bod problemau â thanau bwriadol a darparu ymyriadau amlasiantaethol wedi eu targedu.*** ***Dylai partneriaid gasglu data i gael gwell darlun o danau bwriadol, troseddau dangosol a ffactorau risg.***
Amcanion newydd awgrymedig: • **Awgrymir defnyddio meincnodau i gasglu'r data disgwyliedig gan bob sefydliad bartner a bod y rhain ar gael i'r Cyd-Grŵp, i roi cyngor ar ddull cyffredin o adnabod mannau dwys.** • **Mae'r holl bartneriaid yn cydnabod mai'r dull cyffredinol hwn yw'r 'arfer gorau' i Gymru.** • **Cesglir y data gan bartneriaid yn unol â'r dull cyffredinol cytunedig, oni bai bod rheswm dros beidio â chydymffurfio.**
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: • Wrth awgrymu meincnodau, dylai'r rhanbarthau ystyried os oes modd iddynt ddefnyddio'r 'opsiynau tactegol' sy'n gysylltiedig â'r pwyntiau gweithredu, fel sail dros wella arferion. • Mae gan yr Heddlu ffordd gyffredinol o gategoreiddio tanau sy'n cael eu cynnau'n fwriadol sydd o bosib ddim yn cael eu categoreiddio fel tân bwriadol, megis tanau glaswellt bychan neu losgi sbwriel, lle yn aml iawn does dim modd canfod perchennog neu lle nad yw'r eiddo o werth. Ar un adeg câi hyn ei gofnodi fel "tân nad yw'n achos troseddol" ond y mae bellach yn cael ei gofnodi fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - Amgylcheddol. Efallai y gellid defnyddio 'Amgylcheddol/Tân'.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu
Gweithredu ar gyfer Newid

1. *"Ehangder y Broblem"*

Rhif Gweithredu/Cyfeirnod	***1.3***
Gweithredu	***Cydnabod y gwahaniaethau rhwng ystadegau'r Heddlu a rhai'r Gwasanaeth Tân ac Achub a gwneud yn siŵr nad yw'r gwahaniaethau hynny yn rhwystro'r ymdrechion i leihau tanau bwriadol yng Nghymru.*** ***Yn y tymor hirach sicrhau cysondeb rhwng y ffigurau fel y'u cofnodwyd gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu, mewn perthynas â thanau bwriadol a dealltwriaeth o'r gwahaniaethau yn y ffigurau hynny.***

Dyma oedd y 'nodau': *Derbyn nad yw'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn cofnodi'r un data.*

Y Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau bod y cofnodion cychwynnol ynghylch tanau bwriadol yn cael eu safoni.

Yr Heddlu i sicrhau cofnodi achosion o "Dân bwriadol" a "Tân nad yw'n achos troseddol" fel gellir ystyried yr holl ystadegau perthnasol.

Mabwysiadu gweithdrefnau adrodd Cofnod Data Tân (FDS) sy'n cael eu hadolygu'n genedlaethol ar hyn o bryd.

Pob Pwyllgor Diogelwch Cymunedol i gynnal archwiliad o'r wybodaeth bresennol sydd ag unrhyw berthnasedd i leihau tanau bwriadol.

Rhan 1:ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Cydnabyddir bod gwahaniaethau rhwng system cofnodi data'r Heddlu a chofnod y Gwasanaeth Tân ac Achub. Er hyn, mae cydweithio agosach rhwng yr Heddlu a'r Cofnod Data Tân (yn ogystal ag asiantaethau bartner eraill, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ayb...), wedi cynorthwyo'r sefydliadau yng Nghymru i gael dealltwriaeth well o beth yn union yw'r gwahaniaethau hyn.

Hefyd, mae'r gyd-ddealltwriaeth hyn o natur (a'r gwahaniaeth rhwng) y data a gesglir , yn helpu i sicrhau nad yw'r gwahaniaethau yn cael effaith negyddol ar y gwaith o leihau tanau bwriadol yng Nghymru. Ceir sawl enghraifft o gydweithio'n agos a dealltwriaeth o godau ymarfer, megis y Timau Lleihau Tanau Bwriadol yn cael yr hawl i edrych ar ddata cyfyngedig yr Heddlu a defnyddio data'r Heddlu a'r Cofnod Data Tân i ddarparu ymgyrchoedd amlasiantaethol megis Ymgyrch ('BANG') Bihafia Ar Noson Guto -i leihau nifer y tanau bwriadol a'r digwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol dros gyfnod Calan Gaeaf/Noson Tân Gwyllt.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:

Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân (CFOA)

Part 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Cadw**
Amcanion newydd awgrymedig: • **Y gwahaniaethau rhwng ystadegau'r Heddlu a rhai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn eglur i'r holl bartneriaid, mewn perthynas â chofnodi ac adrodd am danau bwriadol.** • **Yr holl bartneriaid yn deall sut y gall y gwahaniaethau hyn effeithio ar eu cod ymarfer hwy ac ar y gymuned y maent yn ei gwasanaethu, tra'n cydnabod bod cysylltiad uniongyrchol rhwng tanau bwriadol ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.** • **Bod systemau ar waith i sicrhau nad yw'r gwahaniaethau hyn yn effeithio ar ymdrechion pob partner i fynd i'r afael â thanau bwriadol.**
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: • Datganiad clir dan Gymdeithas y Prif Ddiffoddwyr Tân yn amlygu os yw'n fwriad ganddynt i safoni'r modd y mae data'r Heddlu a'r Cofnod Data Tân yn cael eu cofnodi yn yr hir dymor, mewn perthynas â chynnau tanau bwriadol • Rhoi cyflwyniad am y system gyfredol sydd ar waith gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r swyddog arweiniol/penodol yn Heddlu Gwent (sydd ar hyn o bryd wedi cael secondiad i brosiect rhannu data cenedlaethol), fel model effeithiol i'w rhoi ar waith dros Gymru gyfan.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu
Gweithredu ar gyfer Newid

1. *"Ehangder y Broblem"*

Rhif Gweithredu/Cyfeirnod	***1.4***
Gweithredu	***Hybu'r cysyniad o ddull aml-asiantaethol o leihau tanau bwriadol***
Dyma oedd y 'nodau': *Parhau â'r Timau Lleihau Tanau Bwriadol ar y cyd rhwng y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu yng Nghymru.* *Datblygu ymhellach gynlluniau lleihau tanau bwriadol amlasiantaethol llwyddiannus.*	
Rhan 1: ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Mae'r Cyd-Grŵp yn teimlo bod y cysyniad o waith amlasiantaethol bellach wedi ei sefydlu'n gadarn yng Nghymru. Credwn y dylid ystyried hwn yn 'ffordd gyffredinol' o weithio yn hytrach na phwynt gweithredu unigol, awgrymir bod datganiad yn cefnogi gweithio ar y cyd fel yr *arfer gorau* yn cael ei gynnwys yng nghyflwyniad unrhyw Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol newydd.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Firebrake Cymru**	
Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/amcan? **Gwaredu, gweler uchod.**	
Amcanion newydd awgrymedig: **Amherthnasol**	
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: **Amherthnasol**	

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu Gweithredu ar gyfer Newid

2. *"Yr Amgylchedd"*

Rhif Gweithredu/Cyfeirnod	***2.1***
Gweithredu	***Lleihau nifer y tanau glaswellt a choedwig sy'n cael eu cynnau'n fwriadol.***

Dyma oedd y 'nodau': *Newid agwedd y gymuned tuag at gynnau tanau glaswellt a choedwig yn fwriadol.*

Hybu Addysgu gydol oes yn ein cymunedau r mwyn addysgu am y problemau a achosir gan y mater hwn.

Cymryd agwedd amlasiantaethol at fynd i'r afael â'r mater hwn.

Part 1: REVIEW

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Cafodd llawer o waith ei gwblhau yn y maes hwn yng Nghymru. Mae natur, cwmpas a graddfa'r gwaith hwn yn y rhanbarthau yn adlewyrchu'n fras amrywiaeth daearyddol y mater hwn yng Nghymru. Er enghraifft, yng Ngogledd Cymru, mae'r brif ffocws ar reoli llosgi dan reolaeth ac annog llosgi dan reolaeth neu ffyrdd eraill o reoli tir. Fodd bynnag, mae themâu cyffredinol amlwg ar waith hyd a lled Cymru wrth fynd i'r afael â'r broblem hon, megis adnabod 'mannau dwys', ymgyrchoedd wedi eu targedu ac ymgyrchoedd amlasiantaethol.

Enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd:

- Cefnogi'r ymgyrch '*Pain in the Grass'*
- Diwrnodau Gorfodi gyda'r Heddlu
- Hysbyseb Sinema '*We know what you did last summer*'
- Darparu hyfforddiant Tanau Glaswellt i geidwaid parc a Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu (SCPO)
- Cefnogi diogelwch tân cymunedol a Swyddogion Cymuned Ysgol yr Heddlu wrth darparu gwybodaeth ar danau glaswellt i ysgolion
- Defnyddio hofrenyddion yr Heddlu a system radio 'Airwave' i wella gwyliadwriaeth a chyfathrebu.
- Ymgyrch 'Crime Stopper' Cymru gyd-drefnwyd gan Benaethiaid Gorsafoedd a chriwiau gweithredol
- Darparu cymhorthion cof ('aide memoire') i alluogi Swyddogion yr heddlu i ymchwilio i danau glaswellt.

- Hyfforddiant ychwanegol i'r staff y Gwasanaeth Tân ac Achub ar sut i ddelio gyda thanau gwledig.

Ar ben, mae dau ymgyrch ddiweddar y dylid eu nodi; y prosiect Marchnata Cymdeithasol yn Ne Cymru (***'Bernie'***, 2010) a phrosiect ymchwil Comisiwn Coedwigaeth Cymru, cyhoeddwyd yr adroddiad ***'Wildfires in Wales'*** *(* Matthew Jollands, Mai 2011) yn dilyn y gwaith ymchwil hwn. O ganlyniad i brosiect *Bernie* gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y tanau glaswellt yn yr ardal darged (Tonypandy yn Rhondda Cynon Taf), drwy ddarparu nifer o weithgareddau i ddargyfeirio'r bobl ifanc yn yr ardal. Cafodd y gweithgareddau hyn eu canfod a'u rhoi ar waith yn ystod camau penodol (e.e. gwaith ymchwil) y broses o farchnata cymdeithasol.

Mae'r adroddiad *Wildfires in Wales* yn nodi cyfres o argymhellion i fynd i'r afael â thanau gwylltion bwriadol.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:

Y Cyd-Grŵp Lleihau Tanau Bwriadol

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP

Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod?

Mae'r Cyd-Grŵp yn cydnabod bod mwy o bwyslais ar fynd i wraidd y broblem hon a hefyd y gwaith a ymgymerwyd ag ef yn y maes yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf neu lai. Yn ddiamheuaeth cafwyd llwyddiannau a dylid dirnad y rhain a'u rhannu gyda'r partneriaid fel y gallant hwythau elwa ohonynt. Fodd bynnag, mae'n amlwg, o edrych ar niferoedd y tanau glaswellt yng Nghymru'r flwyddyn yma'n barod, yn enwedig yn ystod mis Mai 2011, bod hon yn parhau i fod yn broblem ddifrifol a niweidiol yng Nghymru.

Bu i'r sylw mawr a gafodd y tanau hyn yn y cyfryngau, yn enwedig yn rhanbarth De Cymru yn gynnar ym mis Mai 2011, ddwyn i'r amlwg nifer syfrdanol y tanau glaswellt a mynydd y mae'r criwiau tân yn cael eu galw iddynt yn ddyddiol. Roedd hyn cynnwys cyfweliadau gyda phersonél y Gwasanaeth Tân ac Achub a oedd yn mynegi eu siomedigaeth nad oes digon o droseddwyr yn cael eu herlyn yn y maes hwn.

Argymhellion sylfaenol tymor byr yr adroddiad oedd ***y dylid gwella'r ffordd yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â'r broblem o danau gwylltion***. Gan ddatgan mai 'gweithio mewn partneriaeth yw'r unig ffordd y gallwn fynd i'r afael â phroblem mor amlweddog â thanau gwylltion, ac y mae hyn yn hynod bwysig wrth ystyried bod rhain yn amseroedd lle mae cyllidebau'n lleihau a chyfyngiadau amser yn fwy tynn.'

Cadw- a datblygu fel a ganlyn.

Amcanion newydd awgrymedig:

- ***lleihau nifer y tanau glaswellt a choedwig sy'n cael eu cynnau'n fwriadol***

yng Nghymru

- ***yr holl randdeiliaid i gynyddu eu dealltwriaeth o brif achosion, cymhelliant a chyd-destun cymdeithasol y math yma o danau bwriadol.***

- ***yr holl randdeiliaid i gael gafael ar wybodaeth yn ymwneud ag ymarferion nodedig yn y maes hwn, yn enwedig y rhaglenni a'r ymgyrchoedd hynny sydd wedi llwyddo i ostwng niferoedd y tanau glaswellt***

- ***cynyddu nifer yr ymchwiliadau ac erlyniadau yn gysylltiedig â chynnau tanau glaswellt/coedwig yn fwriadol***

- ***cynyddu eglurder y rhanddeiliaid mewn perthynas â gofynion deddfwriaethol***

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

- Pecyn Cymorth Corfforedig yn cael ei gynhyrchu gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (ar ffurf drafft ar hyn o bryd)

- Y Cyd-Grŵp Lleihau Tanau Bwriadol i adolygu canlyniadau a gwerthusiadau'r ymgyrchoedd diwedda yng Nghymru - fel y gellir cynnwys yr argymhellion wrth roi gweithredoedd ar waith ar draws Cymru

- Angen meithrin perthynas agosach gyda rheolwyr tir a chyda sefydliadau eraill yn ogystal, er enghraifft, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), ac 'addysgu' ffermwyr

- Gofyn wrth Weithgor Gorfodi Cymru ar gyfer Tanau Gwyllt am eglurhad ar ein gofynion deddfwriaethol. Mae'r grŵp am gynyddu nifer yr erlyniadau drwy ymatebiadau, ymchwiliadau a safonau cyhuddo gwell, yn cynnwys cyngor i ystafelloedd rheoli. [Person cyswllt: Andy Scourfield (Heddlu De Cymru) swyddfa troseddau Coedwig, sydd wedi ei secondio i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru]

- Parhau i gynnwys Coedwigaeth Cymru

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu
Gweithredu ar gyfer Newid

2. *"Yr Amgylchedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***2.2***
Gweithredu	***Lleihau Llosgi Cerbydau yn Fwriadol.***

Dyma oedd y 'nodau': *Sicrhau bod cerbydau a adawyd neu nad oes neb eu heisiau yn cael eu symud yn brydlon.*

Rhannu arferion da o ran symud, storio a gwaredu cerbydau a adawyd ar draws awdurdodau lleol.

Lleihau troseddau cerbydau.

Partneriaethau Diogelwch Cymunedol i wneud defnydd effeithiol o'u pwerau statudol i atafaelu cerbydau.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru brotocolau ar waith, mewn perthynas â symud cerbydau nad oes neb eu heisiau. Ceir gwybodaeth am ddyletswyddau statudol awdurdodau lleol ynghylch cerbydau nad oes neb eu heisiau yng 'Nghanllawiau'r Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005' sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae'r daflen troseddau cerbydau wedi ei haddasu fel ei bod yn berthnasol i Gymru gyfan.

Dylid cynnwys cerbydau wedi ei dwyn yng nghynlluniau gweithredu'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol os ydyw cerbydau wedi ei dwyn yn broblem yn eu hardal, er mwyn galluogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub i leihau niferoedd y tanau cerbydau bwriadol.

Mae troseddau cerbydau yn gostwng, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod cerbydau'r dyddiau hyn wedi eu cynllunio a'i hadeiladu i fod yn ddiogelach.

Cydnabyddir bod ffactorau fel y ffaith bod prisiau sgrap ar gynnydd a bod pobl yn manteisio ar ymgyrch 'sgrapio ceir' Llywodraeth Prydain wedi bod yn allweddol wrth leihau'r broblem.

Mae gwaith da wedi ei gwblhau yn y maes hwn yng Nghymru.

Mae sawl ymgyrch aml-asiantaeth ymarferol wedi ei datblygu i gynnig cymorth mewn ardaloedd y gwyddys bod problemau.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:

Yr Heddlu

Rhan 2:ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP

Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod?

Cadw – gan fod hwn yn broblem sydd yn bodoli ar draws Cymru, er ei fod yn lleihau. Mae'r broblem yn amlycach mewn rhai ardaloedd nac eraill.

Amcanion newydd awgrymedig:

- **Lleihau troseddau cerbydau**
- **Lleihau llosgi cerbydau yn fwriadol**
- **Lleihau byrgleriaethau lle dwynir allweddi ceir**
- **Lleihau tanau cerbydau bwriadol (h.y. cerbydau nad ydynt o werth, cerbydau nad oes neb eu heisiau, neu lle na wyddys pwy yw'r perchennog, na fyddent cael eu cofnodi fel digwyddiadau o losgi bwriadol)**

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

Parhau i adnabod mannau dwys a materion sydd yn dod i'r amlwg, megis llosgi platiau rhifau ceir, a derbyn cefnogaeth gan ymgyrchoedd amlasiantaethol.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu Gweithredu ar gyfer Newid

2. *"Yr Amgylchedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***2.3***
Gweithredu	***Gwella Arferion Rheoli Gwastraff.***

Dyma oedd y 'nodau': *Hybu arferion da o safbwynt storio gwastraff yn ddiogel a sicr.*

Cynhyrchwyr gwastraff i dderbyn cyfrifoldeb am ei waredu yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

Addysgu cymunedau, busnesau a chynhyrchwyr gwastraff ynghylch peryglon storio gwastraff yn amhriodol.

Addysgu'r gymuned ynghylch rheoli gwastraff a'r effaith i'r amgylchedd sy'n deillio o reoli gwastraff yn wael.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Mae gweithio ar y cyd gydag awdurdodau lleol wedi'n galluogi i hybu arferion da mewn perthynas â storio gwastraff yn ddiogel er mwyn lleihau'r posibilrwydd y bydd y gwastraff hwnnw'n cael ei losgi'n fwriadol. Cafwyd cynlluniau fel gosod cloeau ar finiau olwynion mewn ardaloedd y gwyddys bod problemau.

Mae 'Trefi Taclus' yn ymgyrch a ariannir gan Lywodraeth Prydain gyda'r nos o fynd i'r afael â materion ansawdd amgylcheddol lleol yn cynnwys sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ariannu Tipio Taclus Cymru, ymgyrch dan arweiniad Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru sydd wedi cyfrannu at leihad mewn tipio anghyfreithlon ar draws Cymru. Mae Tipio Taclus Cymru yn dod â 50 o bartneriaid at ei gilydd yn cynnwys awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru i roi ymgyrchoedd megis 'Ffocws ar Wastraff' ar waith, wedi ei hanelu at fusnesau sydd yn cynhyrchu gwastraff ynghyd â gwastraff domestig. Y bwriad yw addysgu yn gyntaf a chymryd camau gorfodi yn dilyn hyn os bydd angen. Dengys bod y fforymau amlasiantaethol hyn yn ffordd effeithiol o leihau llosgi gwastraff sydd heb ei waredu'n gywir neu sydd wedi ei adael.

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cydweithio'n agos phartneriaid megis Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â thipio anghyfreithlon ar eu tir.

Anogir cymunedau i fod yn ymwybodol o reoli gwastraff yn ystod 'Diwrnodau Gweithredu Amgylcheddol', a Diwrnodau Gweithredu Busnes, gyda phartneriaid.

Gwneir defnydd o Orchymyn Diwygio Rheoleiddio Diogelwch Tân yn ystod rhai o'r ymgyrchoedd hyn gan ei fod yn berthnasol i fusnesau.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Lleihau Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**
Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-CRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Cadw**
Amcanion newydd awgrymedig: • Strydoedd ac amgylchedd glanach gyda llai o gyfleoedd i losgi gwastraff yn fwriadol. • Lleihau nifer y tanau bwriadol sy'n ymwneud â gwastraff neu sbwriel.
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: • Dylai pob rhanbarth ystyried sut y maent yn bwriadu defnyddio'r 'opsiynau tactegol' sydd ynghlwm â'r pwynt gweithredu hwn (yn Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru), fel sail ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn. • Yn dilyn hyn dylai pob rhanbarth ddefnyddio'r Cyd Grŵp fel fforwm ar gyfer rhannu opsiynau tactegol newydd/ychwanegol i wella arferion da ar draws Cymru.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

2. *"Yr Amgylchedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***2.4***
Gweithredu	***Lleihau'r cyfleodd i gynnau tân yn fwriadol mewn safleoedd ac adeiladau gwag.***

Dyma oedd y 'nodau': *Sicrhau bod perchnogion safleoedd ac adeiladau gwag yn ein cymunedau yn cymryd cyfrifoldeb am ddiogelu, cynnal a chadw a monitro eu hasedau.*

Sicrhau bod safleoedd ac adeiladau yn cael eu cloi neu eu gwarchod cyn gynted â phosibl ar ôl eu darganfod, gan felly liniaru'r risg, a chael gwared ar y potensial i gynnau tân yn fwriadol ac i ymddwyn yn wrthgymdeithasol.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub, Yr Heddlu, Awdurdodau Lleol a phartneriaid yn cydnabod bod problemau yn gysylltiedig â safleoedd gwag heb fod wedi eu cloi a'u gwarchod . Dengys tystiolaeth bod y broblem o gynnau tanau bwriadol mewn safleoedd gwag ar gynnydd, a bod a wnelo hyn â'r hinsawdd economaidd sydd ohoni.

Mae gostyngiadau i gyllidebau'r Awdurdodau Lleol wedi ei gwneud yn anoddach iddynt ddiogelu safleoedd gwag oherwydd costau, hyd yn oed os caiff y costau hyn eu hadennill gan y perchennog yn yr hir dymor

Mae'r cyfleodd i ymddwyn yn wrthgymdeithasol a throseddu wedi gostwng. O ganlyniad gwelsom leihad yng ngweithgarwch yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân ac Achub gan arbed adnoddau.

Mae ansawdd bywyd y bobl sydd yn byw yn agos i'r adeiladau hyn wedi ei ddiogelu neu wella ac ar ben hyn maent yn dawelach eu meddwl oherwydd y gweithgareddau partneriaeth sydd yn mynd ymlaen yn eu cymunedau.

Mae gan bob Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ffordd o ganfod a diogelu safleoedd fel hyn trwy gasglu gwybodaeth a chysylltu gyda phartneriaid a rhanddeiliaid (Y Pecyn Cymorth).

Mae gweithwyr y gwasanaethau brys a'n cymunedau'n ddiogelach o ganlyniad i ledaenu gwybodaeth ynglŷn â phroffil risg pob safle gwag sydd heb ei ddiogelu.

Mae safleoedd sydd wedi eu diogelu a'u gwarchod yn parhau i fod yn ymarferol ac yn hyfyw ac felly mae potensial i ddatblygu'n economaidd a mewnfuddsoddi yn ein cymunedau a'n gwlad.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:

Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol a Thimau Lleihau Tanau Bwriadol

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Cadw** a diwygio fel a ganlyn: ***'Lleihau'r cyfleoedd i gynnau tanau bwriadol mewn adeiladau anniogel, gwag neu adfeiliedig'.***
Amcanion newydd awgrymedig: • Llwyddo i leihau tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, mewn perthynas ag adeiladau gwag ac adfeiliedig. • Gostwng niferoedd yr anafiadau i'r cyhoedd a phersonél y gwasanaethu brys, mewn perthynas ag adeiladau gwag ac adfeiliedig. • Partneriaid mewn gwell sefyllfa i adnabod statws diogelwch yr adeiladau gwag neu adfeiliedig yn eu rhanbarth.
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: • Argymhellir bod y pecyn cymorth a ddatblygwyd gan y Timau Lleihau Tanau Bwriadol, '*Pecyn Cymorth Tanau Bwriadol: Adeiladau Gwag ac Adfeiliedig'*, yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Cyd-Grŵp ynghyd ac opsiynau tactegol eraill a'i fabwysiadu fel enghraifft o arfer da. • Yr holl bartneriaid i gydnabod bod y pecyn cymorth yn cynrychioli'r arfer gorau yng Nghymru. • Pob gwaith y mae'r partneriaid yn ymgymryd ag ef i lynu wrth yr arfer da, oni bai bod rheswm dros beidio â chydymffurfio. • Rhannu dulliau o gasglu gwybodaeth a'i ledaenu, er mwyn gwella diogelwch ac effeithiolrwydd mewn perthynas â safleoedd gwas heb eu diogelu. • Datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol gydag Awdurdodau Lleol ar draws Cymru mewn perthynas â gwagleoedd heb eu diogelu sydd mewn perygl mawr. • Sicrhau cefnogaeth gan Bartneriaid Diogelwch Cymunedol ar lefel dactegol. ***'Amcanion' ychwanegol a gynigir:*** *Dyblygu strategaeth ar gyfer adnabod safleoedd sydd mewn perygl mawr.* *Lleihau'r difrod i'r amgylchedd adeiledig.* *Atal anafiadau i aelodau'r gymuned a'r gwasanaethau brys sydd yn mynd i'r safleoedd hyn.*

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

2. *"Yr Amgylchedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***2.5***
Gweithredu	***Anelu at atal trosedd yn gynnar trwy ddylunio.***

Dyma oedd y 'nodau': *Addysgu'r bobl berthnasol, sydd â rhan mewn dylunio a gwneud manylebau i adeiladau, o fanteision atal tanau bwriadol drwy ddylunio.*

Dylai bod gan bob Heddlu 'Swyddogion Cyswllt Pensaernïol", sy'n cael eu hyfforddi i roi cyngor am ddim yn y maes hwn.

Annog a hybu gwneuthurwyr eitemau sy'n gwrthsefyll tanau bwriadol.

Annog penseiri a chynllunwyr i gynnwys mesurau lleihau tanau bwriadol mewn adeiladau.

Gwneud yn siŵr bod yr agenda Diogelwch Tân yn edrych ar ddiogelu asedau yn ogystal.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Nodi bod Ymgynghorwyr Dylunio Atal Troseddau wedi cymryd lle'r Swyddogion Cyswllt Pensaernïol.

Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol yn amlinellu cynnydd graddol. Yr unig Heddlu sydd heb Ymgynghorwyr Dylunio Atal Troseddau yw Heddlu Gogledd Cymru, ond gobeithir y bydd hyn yn newid yn y dyfodol agos. Fel arall, y mae cynnydd systematig wedi bod yn anodd oherwydd costau. Fodd bynnag, cafwyd rhywfaint o gynnydd yn genedlaethol, ac mae'r heddlu wedi ymgorffori'r materion y Gwasanaeth Tân ac Achub i'r gwaith hyn.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:

Y Cyd-Grŵp Lleihau Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP

Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod?

Cadw – ond addasu'r pennawd fel a ganlyn, fel ei fod hefyd yn ymgorffori gweithred wreiddio **5.2.**

'Anelu at atal tanau bwriadol yn gynnar trwy ddylunio'.

Amcanion newydd awgrymedig:

- **Cynyddu dealltwriaeth pobl a chyrff o'r rôl y gall 'Diogelu Drwy Ddylunio' ei chwarae ym maes lleihau troseddau yn gysylltiedig â thannau bwriadol.**

- **Mae canran uwch o adeiladau newydd yn cael eu dylunio, cynllunio a'u codi yn unol ag egwyddorion 'Diogelu Drwy Ddylunio'.**

- **Mae'n ofyniad bod pob adeilad newydd yn cael ei ddylunio, gynllunio a'i godi yn unol ag egwyddorion 'Diogelu Drwy Ddylunio'.**

- **Ar ben hynny, dylai partneriaid ystyried rhoi egwyddorion 'Dylunio Drwy Ddylunio' ar waith mewn perthnasedd â 'gwella diogelwch' adeiladau presennol.**

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

- Y Prif Gwnstabl a'r Prif Swyddogion Tân i ysgrifennu at swyddogion/gweinidogion perthnasol Llywodraeth Cymru yn cefnogi 'Diogelu Drwy Ddylunio'.

- Gweinidogion i benderfynu ar statws 'Diogelu Drwy Ddylunio' yng Nghymru.

- Mae Rheoliadau Adeiladu yn cael eu datblygu yng Nghymru ar hyn o bryd ac efallai y bydd cyfle i ni hybu'r gwaith yma. *

- Angen hyrwyddo a chodi proffil 'Diogelu Drwy Ddylunio' o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

- Yr Ymarferwyr Diogelu Cymunedol i sicrhau bod yr holl adeiladau cyhoeddus yn eu hardal yn cael eu codi yn unol â gofynion 'Diogelu Drwy Ddylunio'.

- Y Gwasanaeth Tân ac Achub i gefnogi Canllawiau Cynllunio Atodol yn eu Hawdurdodau Lleol.

**Dan drafodaeth gyda Chymunedau a Llywodraeth Leol (CLG) ar hyn o bryd. Mae'r Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) yn cynnal gwaith ymchwil ar eu rhan. Gyda'r ffocws ar y math o bethau sydd yn addas i'w hychwanegu i'r rheoliadau adeiladu, e.e. cloeau ar ddrysau a ffenestri. Ystyriaeth arall a drafodwyd gan y gweithgor oedd - a oes modd i'r diwydiant ei hun gyflawni hyn heb yr angen i ddiwygio'r rheoliadau adeiladu.*

Wedi i reoliadau adeiladu gael eu datganoli, Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu a ddylid parhau ag unrhyw waith a wnaed yn y maes hwn. Bydd y gwaith a ymgymerir ag ef yn Lloegr o ddiddordeb.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

2. *"Yr Amgylchedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***2.6 a 2.7***
Gweithredu	***Astudiaeth o ysgolion o safbwynt bod yn agored i danau bwriadol.*** ***Caledu targedau ysgolion. .***

Dyma oedd y 'nodau':
Gwneud astudiaeth tanau bwriadol yn rhan hanfodol o ddyletswyddau tîm rheoli'r ysgol.

Arolygon atal trosedd amlasiantaethol i'w cynnal o bob ysgol yng Nghymru.

Pob ysgol i gael ei tharged galedu erbyn 2010.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Nid yw arolygon atal trosedd yn rhan o ddyletswyddau timau rheoli ysgol ar draws Cymru fel rheol.

Mae arolygan atal trosedd wedi eu cwblhau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru a ganfuwyd, drwy weithio ar y cyd, eu bod mewn perygl mawr.

Pob ysgol sydd mewn perygl mawr yng Nghymru wedi ei diogelu.

Mae digwyddiadau ar dir ysgol bellach yn cael eu monitro a'u cofnodi gan y Gwasanaeth Tân ac Achub/Timau Lleihau Tanau Bwriadol gyda blaenoriaeth.

Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod nawdd ar gael i ddiogelu ein safleoedd mwyaf bregus.

Mae holl aelodau'r Timau Lleihau Tanau Bwriadol yn swyddogion atal trosedd sydd yn gwneud argymhellion ar gyfer diogelu a monitro ansawdd, effeithiolrwydd a chanlyniadau unrhyw waith.

Partneriaethau wedi eu datblygu gydag Awdurdodau Addysg Lleol ar draws Cymru.

Fe adroddwyd wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol y cafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y digwyddiadau yn y safleoedd hynny sydd wedi eu diogelu.

Mae asedau cymunedol hanfodol wedi eu diogelu.

Mae Llywodraeth Cymru, Y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu ynghyd â'n partneriaid wedi darparu help ymarferol a sicrwydd i staff, disgyblion a chymunedau ar hyd a lled Cymru.

Datblygwyd dull amlasiantaethol i ddiogelu safleoedd addysgiadol, ac y mae'n llwyddiannus.
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)
Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Nododd y Cyd-Grŵp nad oedd rhai o'r amcanion cyfredol yn berthnasol mwyach. Fodd bynnag, y teimlad cyffredinol oedd ei bod yn werth bwrw ymlaen â'r gweithredoedd eu hunain.** **Y Cyd-Grŵp yn cytuno ymhellach i gyfuno'r ddwy weithred hyn ynghyd â gweithredoedd 2.8, 2.9 a 5.1. Gweler pwynt gweithredu '2.X' am fanylion yr amcanion newydd a'r argymhellion a awgrymir ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn.**

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

2. *"Yr Amgylchedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***2.8 a 2.9***
Gweithredu	***Cael llywodraethwyr ysgol a chynghorau ysgol i gymryd rhan mewn camau i leihau trosedd ar safleoedd ysgol.*** ***Ysgolion i gydymffurfio â Gorchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tân) (2005).***
Dyma oedd y 'nodau': *Cydweithrediad rhwng llywodraethwyr ysgol, cynghorau ysgol ac asiantaethau lleol i leihau fandaliaeth a thanau bwriadol ar dir yr ysgol.* *Yr ysgolion i wneud eu hasesiadau risg eu hunain.*	
Rhan 1: ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Mae'r Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol yn nodi y cafwyd cynnydd yn y maes, nodir rhai dan adolygiad o Bwynt Gweithredu 2.6. Mae gwaith hefyd yn mynd ymlaen mewn mannau eraill (e.e. Fforwm Rheoli Tanau Bwriadol, Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaer) a allai fod yn ddefnyddiol. Mae Pwynt Gweithredu 2.9 wedi ei chyflawni. Mae hwn bellach yn ofyniad statudol, fodd bynnag nid oes dull cyson i'w roi ar waith.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	
Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Mae'r Cyd-Grŵp yn cytuno i gyfuno'r ddau bwynt gweithredu ynghyd â phwyntiau 2.6, 2.7 a 5.1. Gweler pwynt gweithredu '2.X' am fanylion yr amcanion newydd a'r ffyrdd o weithredu a awgrymir ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn.**	

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

2. *"Yr Amgylchedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***2.X***
Gweithredu	***Ysgolion a Thanau Bwriadol***
Dyma oedd y pwyntiau gweithredu gwreiddiol: **2.6 Astudiaeth o ysgolion o safbwynt bod yn agored i danau bwriadol** **2.7 Diogelu ysgolion.** **2.8 Cael llywodraethwyr ysgol a chynghorau ysgol i gymryd rhan mewn camau i leihau troseddu ar safleoedd ysgol.** **2.9 Ysgolion i gydymffurfio â Gorchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tân) (2005).** **5.1 Cynyddu'r defnydd o Daenellwyr mewn Ysgolion gan felly leihau cost tanau ysgol i gymdeithas.**	
Rhan 1: ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Gweler y pwyntiau gweithredu gwreiddiol i gael adolygiad cynnydd o bob pwynt gweithredu yng Nghymru.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	
Rhan 2:ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP	
Amcanion newydd awgrymedig: • **Bod llai o danau bwriadol mewn ysgolion yng Nghymru.** • **Lleihau effaith (dynol, amgylcheddol ac ariannol) y tanau bwriadol ar ysgolion yng Nghymru.** • **Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg Llywodraethwyr allweddol/uwch a staff Ysgol, am y rhan sydd ganddynt i'w chwarae i leihau nifer y tanau bwriadol ar dir ysgol.**	
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: Monitro pob safle addysgol yng Nghymru rhag trosedd/tanau bwriadol a chydweithio gyda phartneriaid i wella ar neu ddatblygu diogelwch yn y safleoedd hyn. Addysgu aelodau'r Awdurdod Addysg Lleol ynghylch yr angen i adrodd am bob digwyddiad yn y safleoedd addysgol hyn. Gwerthuso effaith y rhaglen 3 blynedd gyfredol a'r argymhellion ar y modd y dylem weithredu yn y dyfodol. Dylid cynnwys adolygiad o dempledi a dulliau a roddwyd ar waith	

yn ystod y 3 i 4 blynedd ddiwethaf i ddiogelu ysgolion.

Cynhyrchu Pecyn Gwaith.

Bod y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol yn adolygu'n ffurfiol y templedi a'r dulliau a roddwyd ar waith yn ystod y 4 blynedd diwethaf i ddiogelu ysgolion a'n bod yn parhau â'r dull gweithredu i Gymru gyfan i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Monitro a chofnodi digwyddiadau ar safleoedd addysgol yn rheolaidd.

Cwblhau arolygon atal trosedd ar safleoedd adnabyddedig gyda'r wybodaeth a gasglwyd.

Recordio'r gwaith o gasglu gwybodaeth a'r gwaith diogelu ar dempled cyffredinol ar draws Cymru.

Y Cyd-Grŵp i geisio nawdd er mwyn cefnogi gweithgareddau ar gyfer diogelu safleoedd ysgol.

Mesurau diogelu i'w monitro a'u cofnodi fel y gellir gweld a ydynt yn effeithiol.

Firebrake i gydweithio gyda chynrychiolwyr o'r Heddlu sydd yn rhan o'r Cyd-Grŵp (gweler pwynt Gweithredu 2.6 uchod). Mae'n werth gofyn i lywodraethwyr/penaethiaid am yr hyn sydd wedi bod yn llwyddiant iddynt hwy.

Dylai'r Cyd-Grŵp ystyried cynhyrchu llawlyfr diogelwch /diogelu i ysgolion / llywodraethwyr ysgol yn cysylltu'r problemau a godwyd ynghylch tanau ysgol/ trosedd yn dangos sut y gellir osgoi'r problemau hyn. Dylid cadw'r wybodaeth hyn ar wefan Llywodraeth Cymru a byddai'n ein galluogi i 'gwblhau'r' gwaith hyn - 'pecyn cymorth' i atal trosedd/tanau bwriadol mewn ysgolion i bob pwrpas. Byddai modd i'r llawlyfr hwn gynnwys goblygiadau dan Orchymyn Rheoleiddio (Diogelwch Tân) (2005), dwyn ystyriaeth i Ddiogelu Drwy Ddylunio, a rhoi sylwi i faterion a godir yn nogfen y biwro atal llosgi bwriadol "*How to Combat Arson in Schools*".

Y Gwasanaeth Tân ac Achub i ystyried gwerthuso'r grantiau llawn 3 blynedd a ddyrannwyd ar gyfer diogelu'r ysgolion a oedd fwyaf agored i danau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac i wneud argymhellion ar unrhyw fesurau diogelu pellach.

Llywodraeth Cymru i ystyried nawdd pellach, yn ddibynnol ar y canlyniadau.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

3. *"Plant, Pobl Ifanc ac Addysg"*

Ymgysylltu ac Ymyrryd

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***3.1***
Gweithredu	***Cael darlun clir o'r graddau y mae plant ac ieuenctid yn cymryd rhan mewn tanau bwriadol.***

Dyma oedd y 'nodau':

Mae'r partneriaethau i gyd yn cyfrannu at ymchwil i'r broblem tanau bwriadol, yn benodol i weld i ba raddau y mae gan blant a phobl ifanc ran yn hyn, ac unrhyw ffactorau demograffaidd perthnasol, yn ogystal ag ymchwil i'r desg i'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer mynd i'r afael â'r broblem, yn cynnwys cael y plant a'r bobl ifanc eu hunain i gymryd rhan mewn datblygu atebion mewn ffyrdd positif.

Canfod asiantaeth addas i gydgasglu'r wybodaeth a chynhyrchu'r adroddiad.

Gwella'r rhannu gwybodaeth rhwng partneriaid.

Rhan 1:ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Yng Nghymru, rydym wedi cyflawni llawer yn y maes hwn drwy gasglu a dadansoddi data a datblygu a darparu rhaglenni i fynd i'r afael â'r broblem o gynnau tanau bwriadol ymysg pobl ifanc, e.e. Y Cynllun Ymwybyddiaeth Tân i Blant (FACE), FIRESAFE a'r Ffenics

Fe sefydlom gysylltiadau gyda'r system cyfiawnder troseddol ieuenctid a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid i'n cyfeirio a'n galluogi i ddarparu rhaglenni ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o neu sydd wedi cymryd rhan mewn tanau bwriadol.

Yn ddiweddar, fe gyflawnwyd dau prosiect ymchwil sylweddol – archwiliad cymdeithasegol y Comisiwn Coedwigaeth a phrosiect marchnata cymdeithasol ('Bernie') Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Tra bo'r gwaith ymchwil hwn yn canolbwyntio ar danau glaswellt, roedd pwyslais mawr ar pobl ifanc yn y ddau brosiect.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:

Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2:ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Cred Y Cyd-Grŵp, fel a nodir ac yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, ei bod yn rhy uchelgeisiol i ni allu cwblhau yr holl amcanion a nodir yn y pwynt gweithredu hwn. Fodd bynnag, dyma faes pwysig iawn a, chan gydnabod yr holl waith sydd eisoes wedi ei gyflawni ar draws Cymru, mae'r Cyd-Grŵp yn credu y dylid ffocysu ar gyfuno'r gwaith hwn. Wrth symud ymlaen gyda'r gwaith y mae'r Cyd-Grŵp yn nodi pa mor bwysig yw sicrhau ein bod yn cyfeirio at Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru a Strategaeth yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (2010) fel ei gilydd. **Cadw a diwygio** – fel y nodir isod**.**
Amcanion newydd awgrymedig: • ***Gwella <u>mynediad</u> holl aelodau'r Cyd-Grŵp, partneriaid ac ymarferwyr yng Nghymru at waith ymchwil yn ymwneud â'r graddau y mae plant a ieuenctid yn cymryd rhan mewn tanau bwriadol.*** • ***Cynyddu <u>ymwybyddiaeth</u> holl aelodau'r Cyd-Grŵp, partneriaid ac ymarferwyr yng Nghymru at waith ymchwil yn ymwneud â'r graddau y mae plant a ieuenctid yn cymryd rhan mewn tanau bwriadol.***
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: • Casglu a chymharu ymchwil bresennol yn y maes (yng Nghymru a thu hwnt), a sicrhau ei fod ar gael mewn un man penodol. • Casglu a chymharu enghreifftiau o raglenni ac ymyrraeth yn y maes (a ddefnyddir yng Nghymru a thu hwnt), gan gynnwys manylion 'arferion gorau' ac unrhyw werthusiadau, a sicrhau ei fod ar gael mewn un man penodol. • Unwaith y cwblheir y pwyntiau gweithredu uchod, Y Cyd-Grŵp i adolygu pa un ai a oes angen rhagor o waith ymchwil i lenwi'r bylchau yn y wybodaeth gyfredol.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

3. *"Plant, Pobl Ifanc ac Addysg"*

Ymgysylltu ac Ymyrryd

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***3.2***
Gweithredu	***Partneriaid i ddefnyddio rhaglenni a werthuswyd, o fewn y cyd-destun lleol.***
Dyma oedd y 'nodau': *Cyfres o raglenni a werthuswyd ar gael i bartneriaid i ddewis modelau addas ohonynt i'w defnyddio'n lleol.*	
Rhan 1:ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Timau Lleihau Tanau Bwriadol wedi parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn, gan ddarparu a datblygu amryw o raglenni addysgol ac ymyrraeth ar hyd a lled Cymru. Yn ogystal â datblygu rhaglenni megis 'Y Ffenics' a 'FireSafe' mae pob rhanbarth wedi datblygu ymgyrchoedd ychwanegol megis 'Sgotwr nid Llosgwr', 'Diffoddwr Tân am Ddiwrnod' a chyrsiau 'Byw yn y Gwyllt'. Mae mentrau un i un a mentrau grŵp ar gael yn eang, ac y mae amryw o bartneriaid yn cefnogi'r ddarpariaeth a thargedu'r ymyraethau penodol yn addas. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys yr Heddlu, Awdurdodau Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Timau Troseddu'r Ifanc, Awdurdodau Addysg Lleol, PentrePeryglon a Dechrau'n Deg.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	
Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Mae'r Cyd-Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd addysg gyffredinol a rhaglenni ymyrraeth benodol i atal plant a phobl ifanc rhag cynnau tanau bwriadol. Unwaith yn rhagor, yn ddiamheuol cafwyd gwaith caled a llawer o ymdrech yn y maes hwn ar hyd a lled Cymru. Tra'n awyddus i beidio a cholli golwg ar y gwaith a'r llwyddiannau a gafwyd yn y maes, y mae'r Cyd-Grŵp yn cydnabod rôl sylweddol ***gwerthusiad*** a ***gweithio mewn partneriaeth*** i ddarparu rhaglenni ac ymyraethau effeithiol. Felly, er bod y gweithgarwch yn y maes yn mynd rhagddo, mae'r Cyd-Grŵp yn argymell bod manylion y gwaith presennol, gwerthusiad a gwaith ymchwil yn cael eu cyfuno. Yn dilyn hyn gellir canfod arferion da a'u rhannu ledled Cymru. Mae'r Cyd-Grŵp yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar gan Lywodraeth Cymru, Strategaeth yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (2010) , ac yn anelu at gefnogi ac ategu'r strategaeth yn yr amcanion a'r pwyntiau gweithredu a argymhellir isod.	

Cadw a diwygio, fel y nodir isod.

Amcanion newydd awgrymedig:

- ***Gwella <u>mynediad</u> holl aelodau'r Cyd-Grŵp, partneriaid ac ymarferwyr yng Nghymru at fanylion a chanlyniadau gwerthuso'r ymyraethau a rhaglenni yng Nghymru.***

- ***Gwella <u>ymwybyddiaeth</u> holl aelodau'r Cyd-Grŵp, partneriaid ac ymarferwyr yng Nghymru am yr ystod o ymyraethau a'r rhaglenni sydd eisoes wedi eu rhoi ar waith yng Nghymru.***

- ***Gwella <u>ymwybyddiaeth</u> holl aelodau'r Cyd-Grŵp, partneriaid ac ymarferwyr yng Nghymru am faint a chanlyniadau'r gwerthusiadau a gwblhawyd ar yr ymyraethau a'r rhaglenni sydd eisoes wedi eu rhoi ar waith yng Nghymru.***

- ***Bod gan aelodau'r Cyd-Grŵp, partneriaid a'r ymarferwyr yng Nghymru'r wybodaeth angenrheidiol i ddethol y rhaglenni ac ymyraethau mwyaf addas o fewn y cyd-destun lleol, ac yna ymgymryd â'r gwaith o werthuso'u darpariaeth yn barhaus.***

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

- Casglu a chymharu enghreifftiau o raglenni ac ymyrraeth yn y maes (a ddefnyddir yng Nghymru a thu hwnt), gan gynnwys manylion 'arferion gorau' ac unrhyw werthusiadau, a sicrhau ei fod ar gael mewn un man penodol.

- Cyhoeddi/darparu arweiniad glir ar ddosbarthiad yr ymyraethau presennol, h.y. 'Haen1', 'Haen 2', neu 'Haen 3'. Dylai'r arweiniad hwn ddwyn i'r amlwg y rhaglenni a'r ymyraethau hynny sydd eisoes wedi eu gwerthuso'n llwyddiannus a'r rhai sydd heb.

- Cyhoeddi/darparu arweiniad ar sut y gellir gwerthuso ymyraethau yn barhaus. Dylai'r arweiniad ddwyn i'r amlwg fuddiannau/ y cyfle i gipio metirgau gwerthuso cyffredin i'w cymharu ar draws Cymru, a dylai gynnwys fframwaith/templed amlinellol i gefnogi'r broses.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

3. *"Plant, Pobl Ifanc ac Addysg"*

Ymgysylltu ac Ymyrraeth

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***3.3***
Gweithredu	***Swyddi Atal/Ymgysylltiad leuenctid i'w strwythuro o fewn sefydliadau, h.y. ddim yn dymor byr (cyllid am 3 blynedd).***
Dyma oedd y 'nodau': *Yr holl raglenni i fod wedi eu staffio yn ddigonol a'u hariannu'n barhaus fel swyddi parhaol.*	
Rhan 1: ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Nodwyd manteision cael staff penodedig/dan nawdd yn y Gwasanaeth Tân ac Achub i ddarparu rhaglenni yn yr adroddiad *"Community Fire Safety – Developing effective practice with young people across Wales"* (K. Wong, 2007). Enghreifftiau o ddarpariaeth staff y 3 Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru (ar adeg cynhyrchu'r ddogfen): <u>Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru</u> Rheolwr Criw yn nhîm canolog Diogelwch Tân Cymunedol, y mae ei swydd ddisgrifiad yn cynnwys materion yn perthyn i blant a phobl ifanc (e.e. casglu archwiliadau CRB). <u>Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a De Cymru</u> Rhaglen *Firesafe* – cydlynir gan y Pencadlys, 2 aelod staff ymhob ardal reoli. <u>Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru</u> Rhaglen Y Ffenics – rheolwr (ar lefel Rheolwr Gorsaf Dros Dro) a 2 Reolwr Gwylfa yn darparu'r rhaglen. Bu i'r adroddiad uchod amlygu rhinweddau allweddol staff y Gwasanaeth Tân ac Achub y mae'r bobl ifanc yn eu gwerthfawrogi, er enghraifft 'tegwch' ac 'empathi'. Ceir datblygiad staff helaeth a phenodol (yn fewnol a chyrsiau/hyfforddiant allanol) i alluogi'r timau i barhau i ddarparu rhaglenni ieuenctid effeithiol ledled Cymru.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Cred y Cyd-Grŵp bod y polisi atal troseddu ieuenctid yn y maes hwn bellach yn rhan gadarn o 'fusnes craidd' y Gwasanaeth Tân ac Achub. Cydnabyddir bod angen sgiliau arbenigol i weithio gyda phlant yn *Strategaeth Plant a Phobl Ifanc yr Awdurdod Tân ac Achub* (Llywodraeth Cymru, 2010). Mae'r strategaeth hwn yn amlinellu sut y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn sicrhau bod staff sydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn effeithiol a phroffesiynol. Mae'r Cyd-Grŵp yn argymell nad oes angen y pwynt gweithredu hwn bellach fel ac y mae. **Gwaredu– dim ei angen mwyach**
Amcanion newydd awgrymedig: **Amherthnasol**
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: **Amherthnasol**

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

3. *"Plant, Pobl Ifanc ac Addysg"*

Ymgysylltu ac Ymyrraeth

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***3.4***
Gweithredu	***Datblygu rhaglenni effeithiol a gynlluniwyd i fodloni anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ymddwyn yn droseddol.***

Dyma oedd y 'nodau':
Strategaethau ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i fod yn rhan o Gynllun Lleihau Risg yr Awdurdod Tân.

Rhan 1:ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Mae llawer o dystiolaeth yng Nghymru bod sefydliadau yn datblygu rhaglenni sydd eisoes wedi eu sefydlu a'u haddasu i fod yn addas yn y cyd-destun lleol, yn ogystal â rhoi gweithgareddau newydd ar waith i fynd i'r afael â'r pwynt gweithredu hwn. Mae yna sawl enghraifft o weithio mewn partneriaeth i dargedu'r plant a'r bobl ifanc sydd mewn perygl, a'u hatgyfeirio i raglenni addas.

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys: ehangu rhaglen Y Ffenics yng Ngogledd Cymru (Ffenics 2); addasu sawl rhaglen yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i gwrdd ag anghenion penodol y plant a'r bobl ifanc; rhoi ychwaneg o weithgareddau ar waith yn Ne Cymru (e.e. Diwrnodau Creu Ymwybyddiaeth Ynghylch Troseddau Cerbydau gyda'r ffocws ar effeithiau a chanlyniadau llosgi cerbydau).

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru a'r Timau Lleihau Tanau Bwriadol wedi sefydlu rhwydwaith o bartneriaid i ganfod unigolion addas i fod yn rhan o gyrsiau a rhaglenni: yn wir mae'r partneriaid hyn bellach yn rhan o gyfansoddiad mewnol hybu'r rhaglenni hyn. Ar ben hynny, y mae gwaith ymchwil allweddol hefyd wedi cynnwys canfyddiadau sydd wedi ychwanegu at ein dealltwriaeth ni am yr hyn sydd yn apelio at a chymell plant a phobl ifanc yn arbennig mewn perthynas â chynnau tanau bwriadol mewn mannau llystyfol .

* Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru - yr ymchwil *'Wildfires in Wales',* 2011 a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru - prosiect *'Bernie'* , 2009 ymlaen.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:
Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Mae 'r strategaeth ddiweddar *Strategaeth Plant a Phobl Ifanc yr Awdurdod Tân ac Achub* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010), yn anelu at ddarparu dull gweithredu sydd gan ddwy brif faes. Yn ogystal â'r elfen o addysg gyffredinol, mae'r strategaeth yn mynd i'r afael ar angen i "leihau troseddau gwrthgymdeithasol yn ymwneud â thân ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc sydd ar fin troseddu neu sydd wedi troseddu'n barod." Cred y Cyd-Grŵp, gan fod gwaith ataliol ymysg ieuenctid yn rhan o'r 'busnes craidd' a chan bod gan Yr Awdurdod Tân ac Achub strategaeth glir a chydnabyddedig ar gyfer ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i leihau peryglon tân a throseddau yn ymwneud â thân, nad oes angen y pwynt gweithredu hwn mwyach. **Gwaredu – dim ei angen mwyach**
Amcanion newydd awgrymedig: **Amherthnasol**
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: **Amherthnasol**

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

3. *"Atal Troseddau Ieuenctid ac Aildroseddu"*

Ymgysylltu ac Ymyrraeth

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***3.5***
Gweithredu	***Staff y Gwasanaeth Tân ac Achub i eistedd ar baneli priodol plant a phobl ifanc sy'n ymdrin â gwaith cyn ac ar ôl llys yn y Timau Troseddau Ieuenctid (TTI).***
Dyma oedd y 'nodau': *Staff tân ar lefel digon uchel i fod ar gael ymhob ardal Awdurdod Lleol sydd â Phanel Cynhwysiant a Chymorth Ieuenctid .* *Staff tân yn cael eu secondio i bob TTI.*	
Rhan 1: ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Nis cyflawnwyd hyn fel y datganwyd, ond y mae cysylltiadau addas erial bellach ar waith gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a rhaglenni gwaith eraill.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	
Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Gwaredu –** dim ei angen mwyach (gweler uchod).	
Amcanion newydd awgrymedig: **Amherthnasol**	
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: **Amherthnasol**	

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

3. *"Plant, Pobl Ifanc ac Addysg"*

Addysg

Rhif Gweithredu / Cyfeirnod	***3.6 & 3.7***
Gweithredu	***3.6*** ***Sicrhau cysondeb yn y negeseuon a'r arferion addysgol ar draws pob gwasanaeth ac asiantaeth.*** ***3.7*** ***Hybu mwy o gydweithrediad rhwng partneriaid allweddol i ddatblygu adnoddau a rhaglenni addysgol er mwyn addysgu plant a phobl ifanc am danau bwriadol.*** ***Cael ESTYN (Arolygaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)a phob Awdurdod Addysg Leol/Yr Adran Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg yng Nghymru i roi blaenoriaeth uwch i Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) yn y cwricwlwm ysgol.*** ***Y sefyllfa bresennol yw mai'r ysgolion eu hunain sy'n dewis bet i'w gynnwys yn ABCh. Pan fo tanau bwriadol yn broblem, dylid annog yr ysgolion yn yr ardal i sicrhau bod neges atal tanau bwriadol yn cael ei chynnwys o fewn ABCh.***
Dyma oedd y 'nodau': ***3.6*** *Plant a phobl ifanc yn derbyn gwybodaeth briodol am faterion yn ymwneud â thanau bwriadol.* *Gwneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg draddodiadol yn ymgysylltu.* *Cyflwyno yn unol â'r rhaglen ysgolion Cymru gyfan er mwyn sicrhau bod y gynulleidfa ehangaf bosibl yn cael ei chyrraedd.* ***3.7*** *Adnoddau addysgol i gael eu datblygu yn unol â chanllawiau'r llywodraeth.* *Rhoi statws uwch i ABCh mewn AALlau ac ysgolion.*	
Rhan 1: ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Ers cyflwyno'r Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol rydym wedi cyflawni llawer yn y maes hwn . Mae amryw o 'unedau' addysgol, deunyddiau a gweithgareddau yn ymwneud â	

diogelwch tân wedi eu cyhoeddi (neu maent yn y broses o gael eu cyhoeddi) ar gyfer gwahanol 'gyfnodau allweddol' y Cwricwlwm Cenedlaethol. Maent yn cynnwys:

Cyfnod Allweddol 1: Llyfryn Gweithgareddau Diogelwch Tân Tani
Cyfnod Allweddol 2: Ail gyfnod y prosiect addysgol a ariannir gan Lywodraeth Cymru, a gynlluniwyd i gyd fynd â gofynion fframwaith ABCh (Addysg Bersonol a Chymdeithasol) yng Nghymru, sy'n darparu negeseuon diogelwch tân allweddol, a gefnogir gan gyfres o Lyfrau Gweithgareddau Diogelwch Tân.

Mae arweiniad i gyd-fynd â'r gweithgareddau hyn hefyd wedi eu cyhoeddi, sy'n helpu athrawon i adnabod sut y mae'r gwahanol negeseuon ac elfennau yn y deunyddiau hyn yn gysylltiedig ag agweddau allweddol ABCh megis 'corfforol', 'Emosiynol' a 'galwedigaethol.

Mae cyfran helaeth y gwaith yn anelu ar hybu'r negeseuon allweddol er mwyn codi ymwybyddiaeth am ddiogelwch tân personol yn y cartref, megis sut i ddianc os bydd tân yn eich cartref a chodio 'arferion gyda'r nos'. Er bod y negeseuon hyn yn bwysig, fe ymddengys bod yma lai o ffocws ar unedau a deunyddiau yn ymwneud â **thannau bwriadol**.

Un fenter o'r fath, a ddatblygwyd ar gyfer **Cyfnod Allweddol 3**, yw **"Dim Ond Tipyn o Fwg"**. Mae'r DVD dwyieithog addysgol a rhyngweithiol hon yn dwyn i'r amlwg faterion fel yfed dan oed, bwlio, pwysau gan gyfoedion a pherthnasau, mewn senario sy'n portreadu troseddau yn ymwneud â tân fel gwneud galwadau ffug a llosgi bwriadol. Y bwriad yw addysgu'r disgyblion am ôl-effeithiau chwarae â thân, yn ogystal â pheryglon gwneud galwadau ffug i'r gwasanaeth tân.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru hefyd wedi bod yn rhan o raglen Cyfnod Allweddol 3 ("Chwarae â Thân"), mewn partneriaeth â Rhaglen Graidd yr Heddlu i Gymru Gyfan a Grŵp Addysg Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru Gyfan. Y bwriad yw mynd i'r afael â throseddau yn ymwneud â chynnau tanau bwriadol ar fynyddoedd a glaswelltir, ac annog pobl ifanc i drafod ôl-effeithiau eu hymddygiad

Yn fwy diweddar, fe ddatblygodd y fenter '**StayWise Cymru'** wefan i gadw adnoddau dwyieithog a chynlluniau gwersi'r Gwasanaeth Tân ac Achub arni. Mae hwn yn seiliedig ar fenter 'StayWise' Gwasanaeth Tân ac Achub Royal Berkshire, gyda'r bwriad o "ddod ag asiantaethau sydd yn ymwybodol o ddiogelwch at ei gilydd megis Gwasanaethau Tân, Ambiwlans a Heddluoedd" er mwyn "darparu 'siop un stop' mewn addysg gymhwysol i athrawon ac ymarferwyr diogelwch cymunedol. Yma yng Nghymru, y Grŵp Addysg Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru Gyfan sydd yn gyfrifol am oruchwylio adnoddau a bwydo'r wybodaeth i'r wefan, a'r holl ddeunyddiau'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac ABCh yng Nghymru.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:
Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP

Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod?

Mae'r Cyd-Grŵp yn cydnabod effaith sylweddol a'r cynnydd a wnaed yn y maes hwn yng

Nghymru, ac yn parhau i gredu bod hwn yn faes pwysig iawn i ganolbwyntio arno. Mae addysgu plant a phobl ifanc am eu diogelwch tân personol/yn y cartref ac mewn perthynas â llosgi bwriadol o'r pwys mwyaf.

Mae'r rôl allweddol sydd gan addysg i'w chwarae yn eglur yn *Strategaeth yr Awdurdodau Tân ar Gyfer Plant a Phobl Ifanc* (2010), ac yn cydnabod bod angen "addysgu pobl ifanc a'u teuluoedd am sgiliau diogelwch tân a dinasyddiaeth gyfrifol." Mae'r strategaeth yn dwyn i'r amlwg bod pob Awdurdod Tân ac Achub yn cyflogi addysgwyr sydd yn addysgu mewn ysgolion prif ffrwd yng nghyfnodau allweddol 1,2,3 a 4".

Yn y cyd-destun 'addysgol' ehangach hwn, yn amlwg mae prif ddiddordeb y Cyd-Grŵp yn ymwneud â sut mae hyn yn berthnasol i, ac effeithio ar, y broblem o gynnau tanau bwriadol. Mae'r ddau bwynt gweithredu hyn yn Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru yn nodi pwysigrwydd cysondeb (yn y negeseuon a'r ymarferion) a chydweithio effeithiol yn y maes hwn - ac y mae'r Cyd-Grŵp yn credu bod y rhain y parhau i fod yn amcanion pwysig.

Felly, nodwn y pwyntiau/pryderon canlynol a godwyd gan ymarferwyr mewn perthynas â datblygu'r pwyntiau gweithredu hyn hyd yma:

- Angen Pecyn Cymorth Cymru gyfan ar gyfer Calan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt.
- Rhai yn credu nad oes digon o ymgynghoriaeth rhwng y bobl hynny sydd yn gyfrifol am ddatblygu pecynnau Cymru gyfan a'r ymarferwyr lleihau tanau bwriadol eu hunain.
- Rhai yn pryderu nad yw'r gwaith yn gyraeddadwy i bawb - pa mor hygyrch yw'r wybodaeth i Bobl Nad Ydynt Mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant?

Wrth symud ymlaen gyda'r gwaith nododd Y Cyd-Grŵp ei bod yn bwysig cyfeirio at Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru a *Strategaeth yr Awdurdodau Tân ar Gyfer Plant a Phobl Ifanc* (2010)

Cadw a diwygio - fel y nodir isod

Amcanion newydd awgrymedig:

- ***Cynyddu cysondeb y negeseuon ac ymarferion yn ymwneud ac addysg a ddarparir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub , Heddlu ac asiantaethau bartner ledled Cymru.***
- ***Cynyddu'r cydweithio rhwng partneriaid allweddol wrth ddatblygu a darparu adnoddau a rhaglenni addysgol i addysgu plant a phobl ifanc am losgi bwriadol.***

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

- Aelod dynodedig y Cyd-Grŵp (Firebrake Cymru) i gydlynu gyda Grŵp Addysgol

Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru Gyfan a phartneriaid allweddol eraill, i ddatblygu 'persbectif' Cymru gyfan wrth ddylunio a darparu negeseuon addysgol mewn perthynas â thannau bwriadol. Byddai perthynas glos rhwng y Cyd-Grŵp a Grŵp Addysgol Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru Gyfan hefyd yn helpu i sicrhau bod yr ymarferwyr ledled Cymru wedi cyfrannu at gynhyrchu'r negeseuon addysgol sydd yn berthnasol i losgi bwriadol.

- Casglu a sicrhau bod enghreifftiau o arferion da a llwyddiannau wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg draddodiadol, yng Nghymru a gweddill y DU, ar gael i aelodau'r Cyd-Grŵp. (e.e. Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru).

- Casglu a sicrhau bod yr holl werthusiadau ar raglenni addysgol perthnasol yn y maes hwn, yng Nghymru a gweddill y DU, ar gael i aelodau'r Cyd-Grŵp.

- Archwilio'r potensial o gynnig cefnogaeth werth roi negeseuon pwysig ar led yn rheolaidd a chyson ymysg plant a phobl ifanc am ymddwyn yn gyfrifol dros dymor Calan Gaeaf a Noson Tân: gallai hyn fod ynghlwm â'r 'Ymgyrch BANG' (Bihafia Ar Noson Guto) presennol.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

3. *"Plant, Pobl Ifanc ac Addysg"*

Addysg

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***3.8***
Gweithredu	***Grwpiau oedran –Dylid datblygu cynlluniau gan ddechrau gyda phlant rhwng 3 a 7 oed yn unol â fframwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer dysgu plant yn y cyfnod sylfaen.***
Dyma oedd y 'nodau': *Dysgu ymddygiad cyfrifol i blant o oedran cynnar.*	
Rhan 1: ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Anelir y cymeriad 'Tanni' at blant ifanc rhwng 5 a 7 mlwydd oed. Mae'n dilyn hynt a helynt helmed diffoddwr tân, ac y mae Tanni yn ymchwilio i beryglon tân, y peryglon y gallant eu hwynebu garter, neu mewn man arall, ac sut y gallant gadw eu hunain yn ddiogel – gan ddefnyddio'r brif neges 'Paid a Chyffwrdd, Dywed" i ategu'r wers. Mae Tanni yn galluogi'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i weithio gyda adnodd cyson sydd ar gael i bob ysgol yng Nghymru yn Gymraeg neu'n Saesneg. Mae Llyfryn Gweithgareddau Diogelwch Tân hefyd ar gael i'r plant ei gwblhau gyda'u rhieni i ychwanegu at yr hyn a ddysgasant yn yr ystafell ddosbarth.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	
Rhan 2:ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Dim yn addas mwyach – addysgu plant ifanc yn cael ei gynnwys mewn rhaglenni eraill. **Gwaredu**	
Amcanion newydd awgrymedig: **Amherthnasol**	
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: **Amherthnasol**	

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

4. *"Diogelu'r Cyhoedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***4.1***
Gweithredu	***Y Gwasanaethau Tân ac Achub i gael eu cynnwys o fewn y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) o safbwynt Troseddwyr Ifanc sydd â hanes o gynnau tanau'n fwriadol.***

Dyma oedd y 'nodau':

Cael y Gwasanaethau Tân ac Achub ar draws Cymru i gymryd rhan ym mhroses MAPPA a arweinir gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr. .

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cael eu cynnwys yng nghyfarfodydd MAPPA pan yn addas ac os y'i gwahoddir. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Gynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaeth (MARAC) sydd yn darparu ymateb brys i drais difrifol yn y cartref a throseddau casineb. Cyflawnir hyn dry Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Heddluoedd Gwent a De Cymru a thrwy hyn bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn ymateb ar unwaith i fygythiadau o ymosodiadau tân. Mae hyn yn cael ei gwblhau o fewn llinell amser benodedig ac y mae'r gefnogaeth sydd ar gael i'r dioddefwr yn cynnwys darparu gard blwch llythyrau, teledu cylch cyfyng ayb...

Mae Gogledd Cymru yn derbyn rhestr cymorthfeydd MAPPA ac yn mynychu pan fydd digwyddiadau yn ymwneud â thân; maent hefyd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd lefel 3 pan yn briodol, os oes risg uwch.

Mae angen cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y broses MAPPA, unai gyda'r Gwasanaeth Prawf yn uniongyrchol neu Uned Amddiffyn y Cyhoedd o fewn yr Heddlu.

Mae ymarfer da yn dangos bod gennym gysylltiadau positif gydag Unedau Amddiffyn y Cyhoedd yr Heddlu sy'n adnabod Plant Bregus, Pobl Fregus a Theuluoedd Bregus, yn cynnwys y rheiny sydd dan fygythiad o ymosodiadau tân bwriadol. Mae modd i'r Gwasanaethau Tân ac Achub gydweithio gyda'r grwpiau hyn, drwy brosesau fel MAPPA A MARAC.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:
Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Cadw**– angen cynnwys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru s yn ogystal.
Amcanion newydd awgrymedig: • ***Gwella presenoldeb a chyfraniad ym mhroses MAPPA, MARAC a datblygu prosesau i asesu risg ymddygiad gwrthgymdeithasol.***
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: • Cyflwyno 'Mesuryddion Perfformiad', h.y. nifer y cyfarfodydd MAPPA a fynychir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn erbyn y nifer y caiff y Gwasanaeth Tân ac Achub ei gwahodd iddynt, fel sy'n cael eu mesur a'u monitro gan y Gwasanaeth Prawf. • Angen arolygu hyn yn rhanbarthol. Ystyried Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cymru gyfan mewn perthynas â'r rhan y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn ei chwarae ym meysydd trais domestig a throseddau casineb. Dylid llunio Cytundeb Lefel Gwasanaeth o'r fath a'i rannu gyda phob un o'n Partneriaid Diogelwch Cymunedol. • Ystyried ymatebiadau lleol i drais yn y cartref a throseddau casineb difrifol ac o bwys mawr.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

4. *"Diogelu'r Cyhoedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***4.2***
Gweithredu	***Lleihau aildroseddu gan y rheini a ryddheir o'r carchar (oedolion ac ieuenctid) sy'n dangos ymddygiad cynnau tanau.***

Dyma oedd y 'nodau':

Adnabod y rheini sy'n debygol o gynnau tanau bwriadol, drwy waith partneriaeth effeithiol rhwng yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, Timau Troseddu Ieuenctid a'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS).

Rhan 1:ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Cafwyd llawr o waith ledled Cymru i adnabod pobl sydd yn debygol gynnau tanau bwriadol, a datblygu a darparu pecynnau a rhaglenni addas i weithio gyda hwy, yn unigol ac fel rhan o grŵp. Mae dull aml-asiantaeth wedi ei rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r broblem hon, mae partneriaid yn cynnwys timau Gwasanaeth Prawf Ieuenctid, y Gwasanaeth Prawf, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gwasanaethau prawf a charchardai (NOMS), ond y mae mwyafrif helaeth y gwaith hyd yma wedi bod â phobl ifanc. Mae rhaglenni wedi bod ar waith yn y gymuned ac mewn dalfeydd/unedau diogel, gyda'r bwriad o addysgu pobl am beryglon tân a chynnau tanau bwriadol, a lleihau aildroseddu. Tra bod modd i bersonél y Gwasanaeth Tân ddarparu rhai o'r ymyraethau hyn, cydnabyddir ei bod yn bwysig iawn i staff y gwasanaeth prawf a staff carchar/y ddalfa fod yn ymglymedig gan fod gan y rheini a dderbynnir yr ymyrraeth amryfal broblemau a gallant fod mewn perygl mawr.

Bydd y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn cydlynu â'i gilydd i sicrhau y ceir ymyrraeth gyson ar hyd a lled Cymru.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:
Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP

Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod?

Cred y Cyd-Grŵp fod y pwynt gweithredu hwn yn anghyraeddadwy fel ac y mae ar hyn o bryd, gan nad yw cyfran troseddu/aildroseddu gan y rheini a oedd yn gyfrifol am gynnau tanau bwriadol yn cael eu mesur yn rheolaidd a chyson. Fodd bynnag, mae hen yn parhau i fod yn maes gwaith pwysig, a tra'n cydnabod y llwyddiannau sydd eisoes wedi eu cyflawni, mae'r Cyd-Grŵp o'r farn bod angen gweithredu i gynyddu lefelau ymyrraeth â throseddwyr a chyd-droseddwr, yn y ddalfa a phan fyddant wedi eu rhyddhau.

Cadw a diwygio – fel y nodir isod.

Amcanion newydd awgrymedig:

- ***Cynyddu lefelau ymgysylltu â throseddwyr a chyn-droseddwyr sydd yn gyfrifol am gynau tanau bwriadol, er mwyn eu haddysgu am y peryglon, a dylanwadu ar eu hymddygiad yn bositif o ganlyniad.***

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

- Casglu a chymharu enghreifftiau o raglenni ac ymyrraeth yn y maes (a ddefnyddir yng Nghymru a thu hwnt), gan gynnwys manylion 'arferion gorau' ac unrhyw werthusiadau, a sicrhau ei fod ar gael mewn un man penodol.

- Ymgynghori â staff y gwasanaeth prawf a staff y ddalfa am becynnau neu ymyraethau sydd yn addas i'w defnyddio gyda oedolion sy'n troseddu.

- Cynhyrchu/darparu cyfarwyddyd ar sut i fesur a gwerthuso ymgysylltiadau yn barhaus. Dylai'r cyfarwyddyd hwn amlygu manteision /cyfleoedd i gasglu matricsau gwerthuso cyffredinol fel y gellir eu cymharu ledled Cymru, a dylai gynnwys fframwaith/templed i cefnogi'r broses.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

4. *"Diogelu'r Cyhoedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***4.3***
Gweithredu	***Lleihau aildroseddu neu'r tebygrwydd o droseddu gan y rheini sydd mewn risg yn y gymuned.***
Dyma oedd y 'nodau': *Adnabod y rheini sydd mewn risg o droseddu neu sydd wedi troseddu drwy weithio mewn partneriaeth.* *Sefydlu systemau cyfeirio i bob asiantaeth bartner fel y gellir cyfeirio'r rhai a adnabuwyd at raglenni.*	
Rhan 1: ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Y mae sawl rhaglen gyda phartneriaid wedi eu rhoi ar waith, ond nid oes cysondeb ar draws Cymru; angen rhannu arferion gorau. Rhaglen Y Ffenics yn rhannu Arferion Da ledled Cymru yn barod. Rhoi mwy o bwys i'r broblem o ymddwyn yn wrthgymdeithasol ac y mae'n bwysig bod y Cyd-Grŵp yn cael gwybod gan yr Ymarferwyr Diogelwch Cymunedol neu'r Heddlu am unrhyw ddatblygiadau a sut y gellir bod yn rhan o'r broses honno.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	
Rhan 2:ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Cadw** a diwygio fel a ganlyn: ***"Lleihau aildroseddu neu'r tebygrwydd o droseddu mewn perthynas â thanau bwriadol gan y rheini sydd mewn risg yn y gymuned."***	
Amcanion newydd awgrymedig: • ***Sefydlu nifer o raglenni i fynd i'r afael â'r broblem o droseddu.*** • ***Darperir y rhaglenni hyn gan ddefnyddio dull aml-asiantaeth, a'u cyfuno gyda gwaith cyfredol y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, i greu pecyn integredig.***	

- ***Bydd y rheiny sydd wedi troseddu neu sydd yn debygol o droseddu yn cael ymyrraeth gynnar ac effeithiol.***

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

- Y Timau Lleihau Tanau Bwriadol i adnabod anghenion a bylchau yn y ddarpariaeth a gweithio gyda phartneriaid yn cynnwys Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i ddatblygu rhaglenni newydd, megis 'Sgiliau Coedwig'.

- Angen datblygu systemau i fesur pa mor effeithiol yw'r rhaglenni - adnabod os oeddent yn llwyddiant o safbwynt newid ymddygiad.

- Rydym angen gwybod faint o bobl sydd wedi defnyddio'r rhaglenni hyn, a chreu proffil o'r grwpiau, fel y gallwn fonitro pa mor effeithiol yw'r ystod o raglenni i wahanol grwpiau ac oedrannau.

'Nod' ychwanegol awgrymedig:

Datblygu rhaglenni sydd yn addas i sawl lefel o droseddu, i'r rhai ar y lefel isaf sydd mewn perygl o droseddu neu'r rheiny sydd ar y lefel uwch sydd eisoes wedi eu cyhuddo o gynnau tanau bwriadol. Mae gofyn iddynt fod yn addas i bob oed a gallu gan ganolbwyntio ar y rheiny sydd dan 10 oed.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

4. *"Diogelu'r Cyhoedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***4.4***
Gweithredu	***Dylid cydlynu ymgyrchoedd gan y cyfryngau ar draws Cymru i gyflwyno negeseuon effeithiol ac amserol er mwyn atal tanau bwriadol neu gynyddu'r nifer sy'n cael eu darganfod.***

Dyma oedd y 'nodau':
Cronfa o lenyddiaeth ddwyieithog yn cael ei chadw mewn man canolog i fod ar gael ledled Cymru.

Dylai'r negeseuon cenedlaethol, fel Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref a Thanau Cefn Gwlad, fod yn gyson a dylent gyrraedd pob rhan o Gymru, drwy ddefnyddio'r cyfryngau priodol.

Dylai ymgyrchoedd gael eu cydlynu yn ganolog.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Yn ôl Gwasanaeth Tân Ac achub Gogledd er bod negeseuon safonol ar gael ac yn cael eu defnyddio gan yr adran Gyfathrebiadau Corfforaethol, mae'r rhain yn berthnasol o Ogledd Cymru yn unig hytrach na Chymru gyfan.

Yn aml iawn, yn enwedig gyda'r nos ac ar benwythnosau, Pennaeth y Safle fydd yn dewis pa neges i'w defnyddio o'r detholiad sydd ar gael.

Fodd bynnag, mae dull Cymru gyfan wedi ei mabwysiadu ar gyfer ymgyrchoedd diogelwch tân estynedig. Mae'r adrannau Cyfathrebiadau Corfforaethol yn cwrdd yn chwarterol ac yn briodol i Gymru gyfan. Mae nifer o daflenni yn defnyddio ystadegau Cymru gyfan, ac ym mae'r rhif 0800 yr un fath trwy Gymru gyfan, yn ogystal â'r adnoddau neges testun i bobl fyddar neu drwm eu clyw. Er enghraifft, roedd gan yr Ymgyrch BANG (Bihafia Ar Noson Guto) dros Galan Gaeaf a Noson Tân Gwyllt yn ddiweddar neges gan Brif Swyddogion y Gwasanaeth Tân a'r Heddlu oedd yn berthnasol i Gymru, ac roedd hyn yn gyson ar hyd a lled Cymru. Ar ben hyn bu i'r Partneriaid Diogelwch Cymunedol addasu'r negeseuon fel bod modd i Swyddfeydd y Wasg y Partneriaid Diogelwch. Roedd yr ymgyrch tannau glaswellt hefyd yn briodol i Gymru gyfan gan ddefnyddio'r cyfryngau addas, a defnyddir *Crimestoppers* i ymchwilio i Droseddau Tanau Bwriadol.

Nodwyd hefyd bod modd datblygu'r gwaith y mae Firebrake eisoes wedi ei gyflawni a wthi'n ei gwblhau ar hyn o bryd, i greu adnoddau a negeseuon Cymru gyfan mewn perthynas â diogelwch tân yn y cartref a grwpiau bregus, a'i ddefnyddio i gefnogi'r broblem o gynnau tanau bwriadol.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:
Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP

Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod?

Tra bo'r Cyd-Grŵp yn cydnabod y gwaith a wnaed yn y maes hwn, roedd teimlad cryf nad ydyw ymgyrchoedd a negeseuon yn gysylltiedig â thannau bwriadol yn cael eu cydlynu'n ddigonol, nac yn cael eu gwerthuso ychwaith. Roedd teimlad hefyd bod angen canolbwyntio arnynt a'u targedu'n fwy manwl. Felly, cred y Cyd-Grŵp y dylid dyfal barhau â'r pwynt gweithredu hwn, a newid yr amcan fel y nodir isod.

Amcanion awgrymedig:

Cytuno bod ffyrdd effeithiol yn bodoli i ddarparu negeseuon effeithiol ac amserol i helpu atal tanau bwriadol, neu wella sut y byddwn yn olrhain ymosodiadau fel hyn yn genedlaethol, rhanbarthol ac yn lleol.

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

- Rheolwyr Diogelwch Cymunedol i rhoi'r dasg o ddatblygu amrywiaeth o negeseuon i'r adrannau Cyfathrebiadau Corfforaethol, a'r adrannau hyn i fynychu Fforymau Diogelwch Cymunedol yn rheolaidd fel bod modd cyfathrebu â phob Sir a sicrhau bod y negeseuon corfforaethol yn gyson.
- Firebrake i ystyried y rhan y gallant hwy ei chwarae wrth ddatblygu a chydlynu negeseuon Cymru gyfan cyson mewn perthynas â thannau bwriadol, a'u gwerthuso.
- Meithrin cysylltiadau gwell rhwng y Cyd-Grŵp ac adrannau Cyfathrebiadau Corfforaethol y Gwasanaethau Tân ac Achub.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

4. *"Diogelu'r Cyhoedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***4.5***
Gweithredu	***Codi ymwybyddiaeth y rheiny sy'n gweithio yn y System Cyfiawnder Troseddol o'r rhaglenni ymyrryd y gall y Gwasanaeth Tân ac Achub eu darparu.***
Dyma oedd y 'nodau': *Dylai'r rheiny sy'n paratoi adroddiadau i'r Llysoedd yn y Gwasanaeth Prawf a'r Timau Troseddu Ieuenctid ymgynghori â'u Swyddog Gwasanaeth Tân ac Achub cyfrifol lleol er mwyn gwneud yn siŵr bod rhaglen addas ar gael i'r troseddwr, os yw hynny'n briodol.*	
Rhan 1:ADOLYGIAD	
Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru? Rydym wedi gweithredu ledled Cymru i sicrhau bod y rheiny sydd yn gweithio yn y System Cyfiawnder Troseddol, yn ogystal ag asiantaethau eraill sydd gan gyswllt â phobl sydd mewn peryglo droseddu, yn ymwybodol o'r rhaglenni ac ymyriadau sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Yng Ngogledd Cymru, er enghraifft, mae'r System Cyfiawnder Ieuenctid, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi derbyn gwybodaeth neu wedi eu briffio; tra yng Nghanolbarth Cymru mae'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol wedi bod yn rhan o'r hyfforddiant Ynadon. Yn Ne Cymru, mae'r Uned Troseddau Tân yn darparu hyfforddiant ar danau bwriadol i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Thimau Plismona'r Gymdogaeth yn ardaloedd Heddlu Gwent a De Cymru, ac y mae'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol allweddol, h.y. y rhai sydd fwyaf prysur o safbwynt tanau bwriadol, wedi sefydlu Grŵp Gweithredu ar Ddiogelwch Tân i fynd i'r afael â'r broblem o danau bwriadol ar lefel dactegol.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	
Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴPJAG RECOMMENDATIONS	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Cred y Cyd-Grŵp bod y gwaith hwn yn parhau i fod yn bwysig, ac y dylid Bwrw ymlaen ag ef yn rheolaidd. **Cadw a diwygio** – fel y nodir isod**.**	
Amcanion awgrymedig– nodwyd yn flaenorol:	

- ***Codi ymwybyddiaeth y rheiny sy'n gweithio yn y System Cyfiawnder Troseddol o'r rhaglenni ymyrryd sy'n cael eu darparu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.***

Awgrymu ffyrdd o weithredu i gefnogi'r amcan:

- Llunio cyflwyniad safonol a sicrhau ei fod ar gael ymhob rhanbarth: dylid cynnwys gwybodaeth graidd am peryglon tân, cynnau tanau bwriadol, ac ymyraethau'r Gwasanaeth Tân ac Achub, a hefyd lle i ychwanegu gwybodaeth am faterion lleol a rhanbarthol y dylid mynd i'r afael â hwy
- Dylai pob Partner Diogelwch Cymunedol ystyried sefydlu Grŵp Gweithredu ar Ddiogelwch Tân (neu debyg) i fynd i'r afael â materion tanau bwriadol ar lefel dactegol, a sicrhau bod y ffocws ar danau bwriadol yn parhau i fod yn uchel ar yr agenda.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

4. *"Diogleu'r Cyhoedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***4.6***
Gweithredu	***Dylid cynyddu gwybodaeth y choedd am fesurau atal y Gwasanaeth Tân ac Achub i gynnwys pob rhan o'r gymuned.***

Dyma oedd y 'nodau':

Strategaethau'n cael eu datblygu i gyrraedd grwpiau agored i niwed yn cynnwys dioddefwyr iechyd meddwl a rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, rhieni sengl, rhieni ifanc, pobl yn byw ar eu pennau eu hunain ac yn y blaen. Byddai'r grwpiau yma'n cael eu diogelu'n well rhag tanau bwriadol.

Cysondeb ar draws Cymru o ran y gwasanaethau a ddarperir a sut y gellir mynd atynt, er mwyn lleihau'r cyfle i gynnau tân bwriadol.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?

Mae llawer iawn o waith wedi bod ar y gweill ledled Cymru i geisio ymgysylltu â grwpiau bregus a'u diogelu'n well rhag dioddef ymosodiadau yn ymwneud â chynnau tanau bwriadol, ac y mae penodi Cydlynwyr Trydydd Sector o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub (yn rhanbarth Gogledd Cymru i ddechrau, ac yng Nghanolbarth a Gorllewin a De Cymru yn fwy diweddar) wedi bod o gymorth mawr wrth gyflawni'r amcan hwn. Mae amryw o bartneriaethau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth wedi eu sefydlu gyda'r Sectorau Cyhoeddus a'r Sector Wirfoddol, i ddelio gyda atgyfeirio a darparu Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref. Mae perthnasau a chytundebau Aml-asiantaeth yn chwarae rhan allweddol wrth adnabod unigolion sydd mewn perygl mawr, er enghraifft, drwy rannu data, paneli Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC), Unedau Diogelu'r Cyhoedd a thimau'r Heddlu. Mae busnesau'r sector breifat yn ogystal â grwpiau cymdogaeth a chymunedol yn cael gwybod am waith y Gwasanaeth Tân ac Achub, a'r rhaglenni ymyrryd sydd ar gael. Mae targed galedu a systemau fel MOSAIC hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth ymgyrraedd y rheiny sydd mewn perygl mawr, a blaenoriaethu achosion pwysig neu frys.

Cydnabuwyd hefyd y dylai gwaith Firebrake, yn nhermau addysg a chodi ymwybyddiaeth mewn perthynas â risgiau tân a grwpiau bregus, chwarae rhan allweddol yn y gwaith hwn, yn enwedig wrth gefnogi ymatebiad cyson dros Gymru gyfan.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:

Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Mae'r Cyd-Grŵp yn cydnabod pwysigrwydd parhau i ymgyrraedd yr unigolion a'r grwpiau hynny sydd mewn perygl mawr o ddioddef ymosodiad yn gysylltiedig â thân bwriadol, a hefyd yn ymwybodol o fanteision gweithio ar y cyd er mwyn cyflawni hyn. Tra'i bod yn amlwg bod angen dwyn ystyriaeth i agweddau lleol a rhanbarthol o safbwynt y ddarpariaeth, y mae hefyd lle i ddysgu a rhannu arferion da ledled Cymru. **Cadw a diwygio** – fel y nodir isod**.**
Amcanion awgrymedig: • ***Cynyddu gwybodaeth y cyhoedd am fesurau atal y Gwasanaeth Tân ac Achub i gynnwys pob rhan o'r gymuned.*** • ***Cynyddu gwybodaeth y cyhoedd o beryglon ymosodiadau llosgi bwriadol y mae rhai unigolion a chymunedau yn eu hwynebu.*** • ***Parhau i gydweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu gwybodaeth ac ymyraethau i ddiogelu unigolion a grwpiau o'r fath rhan ymosodiadau llosgi bwriadol.*** • ***Cynyddu cysondeb ar draws Cymru ynghylch cael mynediad at a darparu gwybodaeth ac ymyraethau addas sydd ar gael i leihau'r tebygolrwydd o ymosodiadau llosgi bwriadol.***
Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn: • Casglu a chymharu enghreifftiau o'r gwaith a wnaed yn y maes hwn(sydd ar waith yng Nghymru a thu hwnt), yn cynnwys manylion am 'arferion gorau' a chanlyniadau unrhyw werthusiadau, a sicrhau bod hwn ar gael mewn man penodol. • Cynhyrchu/darparu cyfarwyddyd ar sut y medrwn werthuson yn barhaus. Dylai'r cyfarwyddyd amlygu manteision/cyfleoedd i gasglu matricsau gwerthuso cyffredinol i'w cymharu ar draws Cymru, a dylai gynnwys fframwaith/templed amlinellol i gefnogi'r broses.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

4. *"Diogelu'r Cyhoedd"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***4.7***
Gweithredu	***Adnabod Tanau Bwriadol â Chymhelliant Hiliol yn Sail Iddynt.***

Dyma oedd y 'nodau':

Adnabod y digwyddiadau a symbylwyd gan hiliaeth.

Defnyddio gwybodaeth arbenigol a blaenoriaethu'r materion yma o fewn asiantaethau partner.

Atal troseddau casineb a digwyddiadau cysylltiedig.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Mae llawer o waith wedi ei gyflawni ledled Cymru i adnabod ac atal ymosodiadau llosgi bwriadol â chymhelliant hiliol yn sail iddynt neu a gysylltir â throsedd gasineb. Er enghraifft:

- Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mae'r Tîm Lleihau tanau Bwriadol yn gweithio mewn dull aml-asiantaeth i adnabod, asesu risg ac ymyrryd i amddiffyn pobl sydd wedi dioddef troseddau casineb, homoffobia neu droseddau rhyw. Roedd yr ymyriadau hyn yn llwyddiannus, ac y maent wedi arbed anafiadau a difrod sylweddol.
- Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, mae digwyddiadau o'r fath yn cael eu tagio gan y Gwasanaeth Tân ac Achub a heddlu Gogledd Cymru, caiff y wybodaeth ei rhannu, ac maent yn ymdrin â'r atgyfeiriad ar unwaith.
- Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Swyddog Trais yn y Cartref yn yr Uned Troseddau Tân fydd yn delio â throseddau casineb. Unwaith yn rhagor, rhoir dull aml-asiantaeth ar waith i godi ymwybyddiaeth, asesu risg a rhannu gwybodaeth, a darparu cyngor ac ymyraethau.

Fodd bynnag, mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu yn cydnabod o'u safbwynt hwy nad oes llawer yn adrodd am danau bwriadol y mae hiliaeth yn sail iddynt yn y rhanbarth, a bod y gwaith a nodir uchod yn cyfeirio at droseddau casineb cyffredinol.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:
Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2:ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP

Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod?

Tra bod Y Cyd-Grŵp yn cydnabod bod llawer o waith wedi mynd rhagddo, a'i fod wedi cael effaith bositif, teimlir bod angen diwygio'r pwynt gweithredu hwn i gynnwys

troseddau casineb cyffredinol, yn hytrach na chanolbwyntio ar gymhelliant hiliol.
Cadw a'i ddiwygio – fel y nodir isod**.**

Amcanion awgrymedig:

- ***Adnabod ymosodiadau tân bwriadol â cymhelliant hiliol neu droseddau casineb yn sail iddynt.***

- ***Parhau i gydweithio gyda phartneriaid allweddol i ddarparu gwybodaeth ac ymyriadau i amddiffyn unigolion a grwpiau o'r fath rhag ymosodiadau tân bwriadol.***

- ***Cynyddu cysondeb ar draws Cymru ynghylch cael mynediad at a darparu gwybodaeth ac ymyraethau addas sydd ar gael i leihau'r tebygolrwydd o ymosodiadau llosgi bwriadol â chymhelliant hilion neu droseddau casineb yn sail iddynt.***

Awgrymu ffyrdd o weithredu fel y gellir cyflawni'r amcanion hyn:

Firebrake i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen, a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr o Uned Troseddau Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r Heddlu, a fydd yn gyfrifol am gyd-drefnu'r pwyntiau gweithredu a nodir isod:

- Adolygu'r modd y mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub a'u partneriaid yn delio ac ymosodiadau llosgi bwriadol â throseddau casineb yn sail iddynt, a sut y maent yn mynd ati i werthuso effeithiolrwydd yr ymyrraeth hynny.

- Casglu a chymharu enghreifftiau o'r gwaith a wnaed yn y maes hwn (sydd ar waith yng Nghymru a thu hwnt), yn cynnwys manylion am 'arferion gorau' a chanlyniadau unrhyw werthusiadau, a sicrhau bod hwn ar gael mewn man penodol.

- Cynhyrchu/darparu cyfarwyddyd ar sut y medrwn werthuson yn barhaus. Dylai'r cyfarwyddyd amlygu manteision/cyfleoedd i gasglu matricsau gwerthuso cyffredinol i'w cymharu ar draws Cymru, a dylai gynnwys fframwaith/templed amlinellol i gefnogi'r broses.

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

5. "Taenellwyr"

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***5.1***
Gweithredu	***Cynyddu'r defnydd o daenellwyr mewn ysgolion gan felly leihau cost tanau ysgol i gymdeithas.***
Dyma oedd y 'nodau': *Lleihau'r gost economaidd i Gymru sy'n deillio o danau ysgol.* *Diogelu a gwarchod 'ysgolion fel asedau' yng Nghymru.*	
Rhan 1:ADOLYGIAD	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? Bellach, mae taenellwyr yn cael eu gosod wrth godi estyniad neu adeilad newydd, ac ar adegau'n cael eu ôl-ffitio. **Rhaglen Taenellwyr i Ysgolion**: Yn 2007-2010 derbyniodd 57 ysgol, a oedd yn agored i ddioddef tanau bwriadol neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, nawdd gyda chyfanswm o £9.6 m i osod taenellwyr. **Rhaglen Diogelu Ysgolion**: Yn 2007-2011 derbyniodd 167 ysgol, a oedd yn agored i ddioddef tanau bwriadol neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, nawdd gyda chyfanswm o £2.1 m. Cafodd y mesurau atal troseddu eu canfod yn dilyn arolwg atal troseddu, a gwblhawyd gan Dimau Lleihau Llosgi Bwriadol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen grant i Ddiogelu Ysgolion (2007-2008), derbyniodd 47 ysgol ledled Cymru nawdd i wella diogelwch a mesurau atal troseddu, yn cynnwys Teledu Cylch Cyfyng, ffensio a chadw sbwriel/biniau ailgylchu mewn man diogelach. Wedi gwerthuso'r prosiectau hyn dengys y cafwyd gostyngiad sylweddol mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau yn yr ysgolion hyn. Bu i rai adrodd eu bod wedi gweld gostyngiad o 100%, gyda chyfartaledd o 89% ar draws Cymru. Bellach, mae modd cwrdd â'r gost o osod taenellwyr mewn ysgolion gyda mecanwaith cyllido Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif. Dylid nodi bod gosod taenellwyr yn un o amodau derbyn y grantiau hyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ailwampio a chodi ysgolion newydd.	
Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau: **Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)**	
Rhan 2: ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP	
Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod? **Cytunodd y Cyd-Grwp y dylid cyfuno'r pwynt gweithredu hwn ynghyd â phwyntiau gweithredu 2.6, 2.7, 2.8, a 2.9. Gweler pwynt gweithredu '2.X' am fanylion yr Amcanion a'r ffyrdd o weithredu a argymhellir i gyflawni'r amcanion hyn.**	

Strategaeth Lleihau Tanau Bwriadol Cymru – Adolygiad Gweithredu

5. *"Taenellwyr"*

Rhif Gweithredu/ Cyfeirnod	***5.2***
Gweithredu	***Lleihau'r gost i gymdeithas sy'n deillio o danau mewn adeiladau cyhoeddus.***

Dyma oedd y 'nodau':
Sicrhau bod ein cymunedau i gyd yn cael defnydd llawn o amwynderau cyhoeddus hân leihau'r perygl y bydd yn rhaid iddynt gale eu hail-godi neu eu cau oherwydd tanau bwriadol.

Sicrhau nad yw cymunedau lleol yn cael eu hamddifadu o'u canolbwyntiau yn y gymuned drwy golled ddifrifol gan dân.

Lleihau'r gost economaidd i Gymru o danau mewn adeiladau cyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys pob un o'r adeiladau sydd o dan reolaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a ddylai osod esiampl i gyrff cyhoeddus eraill. Yr adeiladau cyhoeddus i gynnwys rhai'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Awdurdodau Lleol, y GIG a chyrff eraill a ariennir yn gyhoeddus, yn ogystal ag unrhyw adeiladau Menter Cyllid Preifat sydd yn eu meddiant.

Rhan 1: ADOLYGIAD

Pa gynnydd a wnaed yng Nghymru?
Mae Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi eu gwaith ar gyfer 2013, nid ydynt yn bwriadu cynnwys unrhyw newidiadau pellach mewn perthynas â thaenellwyr yn y newidiadau nesaf i'r rheolau adeiladu.

Sefydlu Timau Lleihau Tanau Bwriadol.

Heddluoedd yn ymgysylltu a llwyddiannau gwahanol gyda'r awdurdodau lleol. Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot mae cytundeb gyda'r Awdurdod Cynllunio y dylid datblygu pob adeilad cyhoeddus yn unol â safonau 'Diogelu Drwy Ddylunio'.

Mae De Cymru Mwy Diogel wedi comisiynu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ddiogelwch Cymunedol. Y gobaith yw y bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu mabwysiadu gan Awdurdodau Cynllunio ar hyd a lled Cymru. Mae De Cymru Mwy Diogel yn croesawu barn Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gwasanaeth Tân ar y ddogfen hon.

Awgrymir bod y canlynol yn cymryd yr awenau:
Y Cyd-Grŵp Tanau Bwriadol (Y Cyd-Grŵp)

Rhan 2:ARGYMHELLION Y CYD-GRŴP

Trosolwg: A oes angen i ni gadw, cael gwared â neu ddiwygio'r weithred/nod?

Cytunodd y Cyd-Grwp y dylid cyfuno'r pwynt gweithredu hwn ynghyd â'r pwynt gweithredu blaenorol 2.5. Gweler pwynt gweithredu 2.5 am fanylion yr Amcanion a'r ffyrdd o weithredu a argymhellir i gyflawni'r amcanion hyn.